

Adroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCydraddoldeb](https://twitter.com/SeneddCydraddoldeb)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Tachwedd 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Peredur Owen Griffiths AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	7
Argymhellion	9
1. Cyflwyniad	14
Dull gweithredu'r pwyllgor	14
Trafodaethau pwyllgorau eraill	14
2. Egwyddorion cyffredinol y Bil	16
Yr angen am ddeddfwriaeth	18
Amcanion y Bil o gymharu â'r canlyniadau	19
Safbwynt y Pwyllgor	21
Egwyddorion cyffredinol	21
3. Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	23
Rôl a gweithrediadau'r CPG	23
Aelodaeth o'r CPG	25
Cynrychioli gweithwyr nad ydynt yn aelodau o undeb	26
Y prosesau ar gyfer enwebu cynrychiolwyr y Cyngor	27
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â gweithrediadau'r Cyngor	30
Safbwynt y Pwyllgor	31
Rôl a gweithrediad y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol	31
Is-grwpiau'r Cynghorau Partneriaeth Gymdeithasol	32
Enwebiadau ac aelodaeth o'r CPG	33
4. Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol	35
Cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y ddyletswydd	37
Y cysylltiad â'r ddyletswydd llesiant	38
Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a dyletswyddau cyfredol eraill	39
Cydydffurfio â'r ddyletswydd	40

Dyletswyddau ar wahân i Weinidogion Cymru	42
Safbwynt y Pwyllgor	42
Y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol	42
Gorfodi a chydymffurfio	43
5. Gwaith teg	45
Newidiadau ers y Bil drafft	45
Gwaith teg yn y Bil fel y'i cyflwynwyd	46
Safbwynt y Pwyllgor	48
Darpariaethau gwaith teg	48
6. Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol	50
Y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol	50
Caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	51
Cwmpas y ddyletswydd caffael	52
Mesur effaith y ddyletswydd	54
Rheoli contractau	55
Dyletswyddau ychwanegol	57
Strategaethau caffael	57
Allanoli	57
Safbwynt y Pwyllgor	58
Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol	58
Cwmpas y ddyletswydd	59
Effaith y ddyletswydd	60
7. Gweithredu'r agweddau caffael	62
Canolfan Ragoriaeth Caffael	64
Trefniadau adrodd, ymchwiliadau a chydymffurfiaeth	64
Pwerau i ymchwilio	66
Canllawiau	67
Safbwynt y Pwyllgor	68

Gweithredu gweledigaeth y Bil ar gyfer caffael.....	68
Gweithio gyda diwydiant	69
Adrodd a chydymffurfio	70
Pwerau i ymchwilio	70
Canllawiau	71

8. Goblygiadau ariannol ac ystyriaethau eraill.....72

Goblygiadau ariannol i gyrff cyhoeddus.....	72
Asesiad Effaith Rheoleiddiol	72
Amser cyfleuster	73
Gwerthusiad ar ôl gweithredu	74
Safbwynt y Pwyllgor	74
Goblygiadau ariannol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....	74
Amser cyfleuster	75
Gwerthusiad ar ôl gweithredu	75

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.....76

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....79

Rhagair y Cadeirydd

Dyma'r ymgais ddeddfwriaethol gyntaf yn y cyfnod datganoli i ddwyn y materion a ganlyn ynghyd: partneriaeth gymdeithasol, gwaith teg a chaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig llawer o fanteision posibl, ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Serch hynny, mae llawer o gwestiynau allweddol nad ydynt eto wedi'u hateb mewn perthynas â'r Bil, a sut y bydd yn cyflawni ei nodau.

Mae angen dybryd am fwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei gyflawni drwy'r Bil, y tu hwnt i'r amcan lefel uchel o wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen canolbwyntio mwy ar ganlyniadau clir, diriaethol er mwyn sicrhau bod potensial y Bil yn cael ei gyflawni, ac er mwyn adeiladu ar y prosesau y mae'n eu rhoi ar waith.

Byddai'r cam o osod partneriaeth gymdeithasol ar sail gyfreithiol yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn sawl gwlad gyfagos yn Ewrop sydd â gweithluoedd cryf ac economïau cynhyrchiol. Byddai'n ffurfioli llawer o'r arferion y mae Cymru wedi'u datblygu yn y degawdau diwethaf, yn arbennig mewn ymateb i bandemig COVID-19.

Mae'r Bil yn cynnwys fframwaith ar gyfer gwella arferion caffael cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar gyfres o werthoedd sy'n ehangach na chost yn unig. Nod y dull hwn fydd cadw mwy o arian yn cylchredeg yn lleol – gan helpu'r broses o adeiladu cymunedau mwy gwydn ac economïau sylfaenol mwy bywiog. Er mwyn bod yn wirioneddol feiddgar, fodd bynnag, rydym am weld targedau mesuradwy yn cael eu gosod ar gyfer caffael, gan gynnwys cyfran yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru.

Byddai'r broses o weithredu'r Ddeddf, pe bai'n dod yn gyfraith, yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyhoeddus datganoledig i feithrin capasiti, gallu a newid diwylliannol ar adeg pan fo cyllidebau'n debygol o grebachu. Bydd hyn yn gofyn am greadigrwydd, cydweithio effeithiol ac arweinyddiaeth. Mae'r cysylltiadau ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig y newid i Sero Net, yn hollbwysig hefyd. Yng nghydestun ymateb i'r argyfyngau ynni a bwyd, diwygio'r sector amaethyddol a rheoli tir yn

gynaliadwy, mae gan y Bil hwn y potensial i ddarparu fframwaith ar gyfer gweithredu a chydweithio.

Cafodd y gwaith o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn ei lywio gan bawb a roddodd dystiolaeth. Hoffem ddiolch yn ddiffuant iddynt, ac i Lywodraeth Cymru am ei hymgysylltiad cadarnhaol wrth gyflwyno'r Bil hwn i'r Senedd. Edrychwn ymlaen at ymateb y Dirprwy Weinidog i'n hargymhellion ar gyfer cryfhau'r ddeddfwriaeth bwysig hon.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae mwyafrif y Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

..... Tudalen 21

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol ar frys i gytuno ar y canlynol:

- y prif ganlyniadau diriaethol y mae am eu cyflawni drwy'r Bil hwn;
- y metrigau allweddol y bydd yn eu defnyddio i fesur y prif ganlyniadau hyn; a'r
- naratif i glymu'r rhain at ei gilydd mewn gweledigaeth gydlynol. Tudalen 22

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn gliriach drwy weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i gytuno ar gylch gorchwyl cryno, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ar gyfer ei gwaith. Dylid bwrw ymlaen â hyn fel mater o flaenoriaeth a dim hwyrach nag wythnos cyn i drafodion Cyfnod 3 gael eu cynnal. Tudalen 32

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 7(5) o'r Bil yng Nghyfnod 2 i gynnwys naill ai dyletswydd i ymgynghori ag aelodau eraill o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, neu geisio cymeradwyaeth y Cyngor, cyn gwneud diwygiadau i weithdrefnau'r Cyngor. Tudalen 32

Argymhelliad 5. Yn unol â'r angen am rôl a chylch gorchwyl wedi'u diffinio'n gliriach dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol ar ffyrdd o weithio, gan gynnwys a fyddai dull 'gorchwyl a gorffen' yn arwain at ganlyniadau diriaethol, gwell ar rai materion. Dylai Llywodraeth Cymru nodi a yw'n bwriadu creu unrhyw is-grwpiau ychwanegol, ac os felly pa rôl a swyddogaethau y mae'n disgwyl i'r is-grwpiau hynny eu cyflawni. Tudalen 33

Argymhelliad 6. Wrth nodi ei bwriadau mewn perthynas â chreu is-grwpiau ychwanegol, dylai Llywodraeth Cymru:

- ymgynghori â darpar bartneriaid cymdeithasol ar y ffyrdd o weithio a ffefrir, gan gynnwys a fyddai dull 'gorchwyl a gorffen' yn arwain at ganlyniadau gwell ar rhai materion; a

- chadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i gynnwys y rhain ar wyneb y Bil yn unol â'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â'r is-grŵp caffael cyhoeddus.
..... Tudalen 33

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar TUC Cymru i enwebu cyfran benodol o aelodau undeb nad ydynt yn perthyn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel rhan o'r broses enwebu..... Tudalen 34

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gynnal trafodaethau cynnar gyda phartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod y prosesau ar gyfer penodi'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynnwys gofynion uchelgeisiol ar gyfer amrywiaeth cynrychiolaeth sy'n ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig ac yn sicrhau dosbarthiad daearyddol eang..... Tudalen 34

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn ymateb i'r adroddiad hwn:

- y dystiolaeth sydd ganddi i gefnogi ei barn nad oes angen mecanwaith cyfryngu ffurfiol ar wyneb y Bil, gan gynnwys manylion am sut y mae wedi ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol
- y mecanwaith a ffefrir ganddi ar gyfer datrys anghydfodau mewn achosion lle canfyddir nad yw cyrff cyhoeddus yn bodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol; a
- chanllawiau ar yr amgylchiadau pan fyddai'r mecanwaith a ffefrir yn cael ei ddefnyddio. Tudalen 44

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau i gefnogi cyrff cyhoeddus i ymgorffori gwaith teg yn eu nodau llesiant, a dylai nodi sut y mae'n disgwyl i'r canllawiau hyn wella nifer y cyrff cyhoeddus sy'n pennu nodau llesiant teg sy'n gysylltiedig â gwaith yn y dyfodol. Dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym..... Tudalen 48

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddigon o gyllid ac adnoddau cynaliadwy i roi'r flaenoriaeth sydd ei hangen ar waith teg, fel y rhagwelwyd gan y Bil. Os canfyddir bylchau yng ngallu Swyddfa'r Comisiynydd i wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau ychwanegol i alluogi mynd i'r afael â'r rhain. Dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn cynnal trafodion Cyfnod 3 a dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â hynny..... Tudalen 48

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 24(1) o'r Bil fel ei bod yn ystyried yn ddigonol y cyfrifoldebau byd-eang sydd gan gyrff cyhoeddus yn ogystal â'r rheini i'w hardal leol. Tudalen 58

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Comisiwn Elusennau i benderfynu a fyddai gwneud Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn effeithio'n negyddol ar eu statws cyfrifyddu cenedlaethol a/neu eu statws elusennol. Os na fydd unrhyw effaith ar y rhain, dylai ychwanegu'r gyrff hyn at y rhestr o awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon..... Tudalen 60

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n cynnig bod rheoliad caffael Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn alinio, a sut y mae'n bwriadu sicrhau bod gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddwy ddyletswydd yn deall sut y bydd y dyletswyddau'n gweithio gyda'i gilydd..... Tudalen 60

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy'n gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer cyfran y caffael sy'n cael ei gwario yng Nghymru ac sy'n cael ei gwario gyda mathau penodol o gyflenwyr megis busnesau bach a chanolig neu fentrau cymdeithasol. Er y bydd angen amser i weithio allan yr union fecanweithiau ar gyfer casglu a monitro data, dylid eu gosod o fewn blwyddyn i'r Ddeddf ddod i rym a dim hwyrach na thair blynedd ar ôl iddi ddod i rym. Tudalen 61

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau ar Gyfnod 2 i ddiwygio adran 40(3) y Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnwys cyfeiriad y contractwr ar y gofrestr ar gyfer pob contract ac unrhyw wybodaeth arall ofynnol i hwyluso'r gwaith monitro a chasglu data sydd ei angen ar gyfer gosod targedau caffael. Tudalen 61

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sicrhau bod gan y gweithlu caffael y capasiti a'r gallu i roi dyletswyddau caffael a rheoli contractau newydd y Bil ar waith a darparu'r hyfforddiant sydd ei angen i wneud hyn. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn ei le cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym a dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r costau amcangyfrifedig. Tudalen 69

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu cydweithredu'n effeithiol i feithrin capasiti, gallu ac arbenigedd drwy nodi'r canlynol yn ei hymateb i'r adroddiad hwn:

- eglurhad o'r rolau a'r berthynas rhwng y Ganolfan Ragoriaeth Caffael ac is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
- sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd y Ganolfan Ragoriaeth Caffael ac is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn chwarae rhan wrth yrru'r agenda gydweithredu yn ei blaen. Tudalen 69

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff y diwydiant a chynrychiolwyr sy'n ymwneud â chaffael adeiladu i ddatblygu canllawiau cadarn ar sut y dylid rhannu rhwymedigaethau a risg caffael cymdeithasol gyfrifol drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan, i fynd i'r afael â materion diwylliannol ac ymddygiadol..... Tudalen 70

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod gofynion adrodd yn y Bil yn cael eu symleiddio er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr angen i gynyddu tryloywder; sicrhau cyn lleied â phosibl o faich gweinyddol ar gyrff cyhoeddus; ac osgoi dyblygu gofynion adrodd o ddyletswyddau eraill..... Tudalen 70

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ymchwiliadau caffael Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â'r pwerau presennol sydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut y bydd ei dull gweithredu fel y'i rhagwelir yn y ddeddfwriaeth yn ychwanegu gwerth ac yn osgoi dyblygu. Tudalen 70

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r meini prawf a fyddai'n sbarduno ymchwiliad o dan adran 41 o'r Bil a'i safbwynt ar yr angen i ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn cychwyn ymchwiliad o'r fath..... Tudalen 71

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 yn nodi manylion am y meini prawf a fyddai'n sbarduno ymchwiliad o dan adran 41 ar wyneb y Bil.
..... Tudalen 71

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad i gyhoeddi'r canllawiau statudol ar ffurf drafft i'w hystyried gan randdeiliaid a'r Senedd gyda chyfnod ymgynghori o chwe wythnos eistedd o leiaf..... Tudalen 71

Argymhelliad 25. Dylai Lywodraeth Cymru gysylltu â chyrff cyhoeddus mewn ymateb i bryderon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanamcangyfrif y costau posibl sy'n codi o ganlyniad i'r Bil a chyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cyfnod 2 i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd eu hangen..... Tudalen 74

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyflogwyr a'r mudiad undebau llafur i ddeall a fydd angen amser cyfleuster ychwanegol er mwyn i undebau llafur gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Bil a darparu'r manylion hyn drwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau erbyn diwedd Cyfnod 2 i adlewyrchu costau a manteision posibl yr amser cyfleuster ychwanegol hwn..... Tudalen 75

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r agenda, y cofnodion a'r allbynnau ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol. Er mwyn galluogi tryloywder, dylid cyhoeddi'r dogfennau hyn cyn diwedd 2022. Tudalen 75

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw waith a wneir i werthuso a dysgu gwersi o waith y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na mis Gorffennaf 2023. Tudalen 75

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil ym mis Mehefin 2022. Casglwyd tystiolaeth gennym i lywio ein gwaith craffu ar y Bil o safbwynt polisi. Mae pwyllgorau eraill wedi edrych ar y Bil o safbwynt ariannol a chyfansoddiadol.

1. Cyflwynwyd y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** (y Bil) a'r **Memorandwm Esboniadol** cysylltiedig i'r Senedd gan Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (y Dirprwy Weinidog) ar 7 Mehefin 2022. Cyhoeddwyd y **Datganiad o Fwriad Polisi** ar 8 Mehefin 2022.

2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'n Pwyllgor ar gyfer craffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yn ei gylch ar 18 Tachwedd 2022.

Dull gweithredu'r pwyllgor

3. Cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gyfer y gwaith hwn oedd ystyried:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir;
- Darpariaethau allweddol y Bil (fel y nodir yn ôl adran);
- Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil; a
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

Trafodaethau pwyllgorau eraill

4. Clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth lafar gan y Dirprwy Weinidog ar **30 Mehefin 2022** a chyhoeddodd ei adroddiad ar **18 Tachwedd 2022**.

5. Methodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad â chynnal ei sesiwn dystiolaeth lafar a gynlluniwyd oherwydd y cyfnod o Alaru Cenedlaethol yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines ac yn hytrach ysgrifennodd at y Dirprwy Weinidog a chafodd ymateb ar **14 Hydref 2022**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar **18 Tachwedd 2022**.

2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

Roedd y dystiolaeth yn gefnogol ar y cyfan i'r Bil ond mae cwestiynau o hyd ynghylch a fydd yn sicrhau canlyniadau diriaethol. Mae mwyafrif y Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil yn amodol ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a nodwyd.

6. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi'r amcan cyffredinol, sef darparu "fframwaith i wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol".¹ I grynhoi, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu nodau llesiant a chyflawni'r nodau hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, wrth gyflawni eu nodau llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' o fewn y nod presennol "Cymru ffyniannus";
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gynnal eu gweithgareddau caffael, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;

¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – 7 Mehefin 2022

- rhai cyrff cyhoeddus yn cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio drwy gadwyni cyflenwi;
- gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael.

7. Roedd rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ond roedd rhai sefydliadau yr oedd eu cefnogaeth yn amodol.²

8. Dywedodd yr Athro Alan Felstead fod llawer i'w edmygu yn y Bil a gyflwynwyd yn y ffordd y mae'n cryfhau'r egwyddorion cyffredinol o ran gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ac yn hyrwyddo penderfyniadau cydsyniol sy'n cynnwys undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogwyr a'r llywodraeth.³

9. Yn yr un modd, dywedodd TUC Cymru ei bod yn croesawu'r Bil a chred ei fod yn cyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru i gryfhau partneriaeth gymdeithasol ac yn ei rhoi ar sail statudol, yn ogystal â sicrhau gwerth cymdeithasol gwell o gaffael.⁴

10. Roedd undebau llafur sydd ag ymlyniad wrth Gyngres Undebau Llafur (TUC) Cymru yn gefnogol hefyd i egwyddorion cyffredinol y Bil. Roedd Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru yn croesawu'r Bil gan ei ystyried yn ffordd gadarnhaol i Gymru roi sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol.⁵

11. Roedd Chwarae Teg yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ond yn credu y dylid ei gysoni â'r ddeddfwriaeth bresennol ar gydraddoldeb er mwyn helpu i greu Cymru fwy cyfartal. Nododd y byddai'n rhaid manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod cydraddoldeb yn elfen brif ffrwd o ddarpariaethau'r Bil a'r gwaith o roi dyletswyddau newydd ar waith, ac mai dyna'r unig ffordd o wireddu effaith gadarnhaol bosibl y cynigion hyn.⁶

12. Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn croesawu'r Bil ac yn gofyn am fwy o eglurder a fydd y mesurau'n gymwys i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y dyfodol. Roedd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymeg pam nad oedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi'u cynnwys yn y rhestr o sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r Bil, ac awgrymwyd

² Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru; Iechyd a Gofal Digidol Cymru; TUC Cymru; Cwmpas

³ Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Athro Alan Felstead

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NEU Cymru

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

efallai y bydd aelodau unigol yn gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Bil.⁷

Yr angen am ddeddfwriaeth

13. Clywsom nifer o ddadleuon a rhesymau i gyfiawnhau gan randdeiliaid.

14. Amlygodd Mary Williams o Uno'r Undeb enghraifft o bartneriaeth gymdeithasol yn ystod y pandemig pan gydweithiodd y Trysorlys, TUC a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain ar y Cynllun Cadw Swyddi. Fodd bynnag, cred na chafodd y dull cydweithredol hwn ei gynnal drwy gydol y pandemig a bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg sylfaen statudol.⁸

15. Nododd yr Athro Ed Heery y byddai'r Bil yn fwy cadarn, yn llai amodol, yn ddibynnol, ar ddymuniadau gweinyddiaeth benodol neu set o Weinidogion neu gangen o'r gwasanaeth cyhoeddus. Cred fod gan y Bil werth symbolaidd pwysig wrth arysgrifio'r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol yn y gyfraith, gan ddangos i'r cyhoedd yng Nghymru yn fwy cyffredinol mai dyna yw amcan y Llywodraeth.⁹

16. Roedd Richard Tompkins a Sue Hill o Gyflogwyr GIG Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno â'r angen i'r Bil amlygu'r rôl gadarnhaol a chwaraeodd partneriaeth gymdeithasol yn ystod y pandemig. Ychwanegodd Richard Tompkins y gallai ei osod ar sylfaen statudol fod yn gatalydd ar gyfer symud pethau ymlaen mewn ffordd llawer mwy cydgyssylltiedig, a ffordd na fyddai'n digwydd o reidrwydd yn organig yn unig.¹⁰

17. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau tân ac achub o'r farn bod angen y ddeddfwriaeth i ategu arferion presennol ac oherwydd y gallai lefelau ymgysylltu presennol ar bartneriaeth gymdeithasol amrywio.¹¹

18. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn cwestiynu'r angen am y Bil. Dywedodd Richard Selby, Cadeirydd Sefydliad y Cyfarwyddwyr wrthym, er eu bod yn gwerthfawrogi'r angen i gydweithio, roedd llawer o aelodau'r Sefydliad yn cwestiynu a oes angen y ddeddfwriaeth ac a yw'r adenillion cost ar ei chyfer yn angenrheidiol.¹²

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cartrefi Cymunedol Cymru](#).

⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, [paragraff 292](#) – 4 Gorffennaf 2022

⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 227](#) – 11 Gorffennaf 2022

¹⁰ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 207-213](#) – 27 Mehefin 2022

¹¹ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 308-314](#) – 27 Mehefin 2022

¹² Cofnod y Trafodion, [paragraff 89](#) – 4 Gorffennaf 2022

19. Roedd Liz Lucas, Pennaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cwestiynu a oedd angen y Bil gan fod llawer o'r manylion yn y Bil eisoes yn barod gyda'r ddeddfwriaeth bresennol.¹³

20. Gofynnodd Ben Cottam o Ffederasiwn y Busnesau Bach a oedd angen deddfwriaeth o safbwynt cynnwys busnesau a sefydliadau busnes o ystyried eu bod wedi bod yn gweithio'n effeithiol gyda dull gwirfoddol ers blyneddau lawer bellach. Dywedodd wrthym nad oedd llawer o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol ymhlith aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach:

*"On the point of whether this is registering, I think the blunt answer is 'no'. I have very, very few conversations, if any, that mention social partnership, other than the ones that we would initiate with our members. I think the concept of social partnership, particularly amongst smaller businesses, isn't particularly well understood. Where it becomes more practical and more understandable is the constituent elements of what social partnership seeks to achieve—so, for instance, fair work [...] among my membership, there is a real keenness to have that conversation about fair work, so legislation at least provides for that consistency, but the understanding of social partnership is very low from what we can see within small and medium-sized enterprises."*¹⁴

Amcanion y Bil o gymharu â'r canlyniadau

21. Amcan cyffredinol y Bil yw "[g]wella llesiant pobl Cymru, gan wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol". Fodd bynnag, roedd nifer o randdeiliaid yn pryderu ynghylch diffyg eglurder o ran sut i fesur yr amcan hwn, effaith ehangach y Bil ac i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir sut y mae'n bwriadu mesur cynnydd.

22. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig, er bod theori gadarn a phrofiad rhyngwladol yn sail i'r Bil, mae angen ffocws ar ganlyniadau, gyda monitro a gwerthuso yn rhan ganolog o hyn.¹⁵

23. Galwodd Leighton Jenkins o Gyddfederasiwn Diwydiant Prydain am ddatblygu naratif o amgylch yr achos busnes ar gyfer yr egwyddorion a'r canlyniadau a fwriedir o'r Bil.¹⁶

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 12 – 11 Gorffennaf 2022

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 93 – 4 Gorffennaf 2022

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Materion Cymreig

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 103 a 104 - 4 Gorffennaf 2022

24. Dywedodd Darren Williams o Undeb y Gwasanaethau Proffesiynol a Masnachol (PCS) mai un canlyniad i'r strwythurau y mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio'u creu fyddai ymgysylltu'n gynnar a datrys anghydfodau diwydiannol.¹⁷

25. Cred Nisreen Mansour o TUC Cymru y byddai mwy o gynrychiolaeth a chyfranogiad gweithwyr mewn trafodaethau ynghylch datgarboneiddio a 'phontio cyfiawn' i economi carbon sero-net yn enghreifftiau diriaethol o roi amcanion y Bil ar waith.¹⁸

26. Dywedodd Kirsty Cumming o Community Leisure UK er y byddai rhai agweddau ar y Bil o reidrwydd yn agored i'w dehongli, y byddai sicrhau rhywfaint o gysondeb ac eglurder ledled y wlad yn bwysig er mwyn cyflawni'r canlyniadau y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni.¹⁹

27. O ran canlyniadau mesuradwy a dangosyddion perfformiad allweddol, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y cafodd y gwaith theori newid ar gyfer y Bil ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2021, yn ogystal â data a awgrymir er mwyn mesur y canlyniadau yn nhair prif gydran y Bil, sef gwaith teg, partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ailystyried i adlewyrchu fersiwn derfynol y Bil fel y caiff ei gyflwyno a chaiff canlyniadau eu cadarnhau yng ngwanwyn 2023".²⁰ Mewn gohebiaeth ddilynol, cydnabu'r Dirprwy Weinidog nad oedd yn hawdd mesur llawer o amcanion y Bil a dywed fod y "gwaith a wnaed i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer y Bil wedi nodi nifer o ganlyniadau lefel uwch tebygol, ac [roedd yn] gobeithio gweld y rhain yn cael eu cyflawni".²¹ Roeddent yn cynnwys: cyflogaeth o ansawdd gwell a darparu gwasanaethau'n well yn y sector cyhoeddus; cynhyrchiant gwell yn y sector preifat; a defnydd mwy cyson o arfer da wrth geisio gyflawni nodau llesiant drwy gaffael.²²

28. Wrth holi'r Dirprwy Weinidog ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth, roedd yn cydnabod bod y Bil, mewn sawl ffordd, yn ceisio ffurfioli a chryfhau'r trefniadau presennol. Dywedodd hefyd y byddai rhoi sylfaen statudol i drefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol yn arwain at fanteision, gan gynnwys mwy o gysondeb o ran dull ymhlith cyrff cyhoeddus.²³

29. Cred y Dirprwy Weinidog fod y Bil mewn rhai meysydd yn mynd ymhellach nag arferion presennol ac y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Bil i

¹⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 230](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁸ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 232-233](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 140](#) – 11 Gorffennaf 2022

²⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#) – 22 Gorffennaf 2022

²¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#) – 14 Hydref 2022

²² [Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#) – 14 Hydref 2022

²³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 109](#) – 20 Mehefin 2022

fod yn fwy eglur ynghylch yr hyn y mae partneriaeth gymdeithasol yn ei olygu yng Nghymru, a nodi'r egwyddorion a'r disgwyliadau hynny ynglŷn â'r dull gweithredu, a'r ymrwymïadau a rennir sy'n ofynnol gan yr holl bartneriaid.²⁴

Safbwynt y Pwyllgor

Egwyddorion cyffredinol

Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd lle mae rhanddeiliaid wedi awgrymu newidiadau neu wedi pwysleisio'r angen am fwy o gefnogaeth a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru ac ymdrinnir â'r rhain mewn penodau dilynol. Roedd nifer fach o'r rhanddeiliaid yn cwestiynu'r angen am y Bil. O ran yr egwyddorion cyffredinol, roedd mwyafrif y Pwyllgor yn cytuno y dylai'r Senedd gefnogi taith y Bil yng Nghyfnod 1. Roedd un Aelod yn anghytuno.

Argymhelliad 1. Mae mwyafrif y Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Mae nodau cyffredinol y Bil – gwella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol – yn gymeradwy ond mae perygl o beidio â'u cyflawni oni bai bod Llywodraeth Cymru yn nodi mewn mwy o fanylder sut y mae'n bwriadu sicrhau canlyniadau diriaethol. Rhaid i hyn gynnwys gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i gytuno ar sut i fesur effaith y ddeddfwriaeth yn erbyn ei hamcanion datganedig, pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith.

Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd fynegi naratif cliriach a mwy cymhellol ynghylch yr angen am y ddeddfwriaeth a'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol i bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i fod yn fwy eglur yn hyn o beth.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol ar frys i gytuno ar y canlynol:

- y prif ganlyniadau diriaethol y mae am eu cyflawni drwy'r Bil hwn;
- y metrigau allweddol y bydd yn eu defnyddio i fesur y prif ganlyniadau hyn; a'r

²⁴ Cofnod y Trafodion, **paragraff 109** – 20 Mehefin 2022

- naratif i glymu'r rhain at ei gilydd mewn gweledigaeth gydlynol.

3. Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Mae creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol teirochrog wrth wraidd y ddeddfwriaeth arfaethedig. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei fod yn cynrychioli ehangder y gweithle modern ac amrywiaeth Cymru heddiw.

30. Mae adran 1 o'r Bil yn sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (y cyfeirir ato fel 'CPG' neu 'y Cyngor'). Yn ôl y Memorandwm Esboniadol ei swyddogaeth graidd yw:

*"darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion penodol. Mae'r swyddogaeth hon yn ehangach na chynghori Gweinidogion Cymru yn unig a gallai gynnwys creu neu ddarparu, ymhlith pethau eraill, ystadegau, crynodebau ffeithiol, copïau o ddogfennau (boed y rheini ar gael i'r cyhoedd ai peidio) ac yn y blaen. Nid oes unrhyw gyfyngiad penodol ar y math o wybodaeth neu gynghor y gall yr CPG ei darparu neu ei ddarparu."*²⁵

Rôl a gweithrediadau'r CPG

31. Er na wnaeth rhai sefydliadau sylwadau ar greu'r CPG, roedd y rhai a wnaeth sylw yn gefnogol ar y cyfan.²⁶

32. Yn eu tystiolaeth lafar, cyfeiriodd Siambrau Cymru, Cyflogwyr GIG Cymru ac eraill at y rôl a chwaraeodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn ystod pandemig y coronafeirws.²⁷

33. Roedd undebau llafur sydd ag ymlyniad wrth TUC yn croesawu'r gwaith o ddatblygu CPG statudol gydag Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth yn nodi bod y dull teirochrog a ddefnyddir i'w groesawu ac y gallai fod yn sylfaen ar gyfer creu fforymau

²⁵ Memorandwm Esboniadol y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – 7 Mehefin 2022

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil, Colegau Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cwmpas, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 215; paragraff 138 – 27 Mehefin a 4 Gorffennaf 2022

eraill sy'n cynnwys undebau a chyflogwyr yn y sector preifat.²⁸ Dywedodd NEU Cymru fod creu'r CPG yn ffordd synhwyrol o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu ymgysylltu â'r gweithlu.²⁹

34. Roedd gan y sefydliadau sy'n cynrychioli busnes farn fwy amrywiol. Dywedodd Siambrau Cymru fod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig wedi dangos pa mor effeithiol yw cael grŵp brwdfrydig a all gynghori Gweinidogion ar faterion cymhleth o bob rhan o gymdeithas.³⁰ Fodd bynnag, rhybuddiodd y Llywydd Paul Slevin mewn tystiolaeth lafar wrth i'r pandemig ddod i ben, nad yw hynny wedi amlygu ei hun, ac mae'n credu bod rhai o gyfarfodydd diwethaf y cyngor partneriaeth gymdeithasol wedi cael eu gohirio neu eu canslo.³¹ Cred Siambrau Cymru hefyd y bydd angen mandad clir ac agenda gryno ar y CPG.³²

35. Roedd rhai yn pryderu y gallai pennu aelodaeth o'r CPG yn y ddeddfwriaeth arwain at anhyblygrwydd.³³ Dywedodd Ben Cottam o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod ffurfioli dyletswyddau a strwythurau partneriaeth gymdeithasol yn arwain at risg o greu systemau sy'n siarad â phartneriaeth gymdeithasol ac nad ydynt yn ddigon ystwyth i ymateb i rai o'r materion eraill sy'n wynebu'r aelodau ac yn wynebu'r economi.³⁴ Mae'r Ffederasiwn am gael eglurhad ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i ymgynghori â busnesau ar faterion economaidd, ac am i'r Cyngor fodoli ochr yn ochr â system ar wahân ar gyfer rhyngweithio ar faterion economaidd yn benodol.³⁵

36. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod llywodraeth leol wastad wedi cefnogi trefniadau partneriaeth gymdeithasol lleol a chenedlaethol, a'i bod yn cefnogi sefydlu'r Cyngor ond ei bod yn awyddus i symleiddio'r strwythurau partneriaeth gymdeithasol ehangach sydd eisoes yn bodoli.³⁶

37. Er ei fod yn gweld manteision clir i bartneriaeth gymdeithasol, dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig na fydd yn ateb yr holl broblemau o ran hawliau gweithwyr, a bydd angen monitro'r canlyniadau a gyflawnir yn sgil y Bil, er enghraifft ynghylch cyflog, amodau gwaith a gwasanaethau cyhoeddus.³⁷

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Undeb Addysg Cenedlaethol

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Siambrau Cymru

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 96 – 4 Gorffennaf 2022

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, Siambrau Cymru

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 236 – 27 Mehefin 2022

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 109 – 4 Gorffennaf 2022

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Materion Cymreig

38. Dywedodd Richard Tompkins o Gyflogwyr GIG Cymru fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i sut mae lleisiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y CPG arfaethedig yn cael eu clywed, ac os yw'r Cyngor wedi'i orlethu gan fiwrocratiaeth, yn hytrach nag yn edrych ar allbynnau a chanlyniadau, yna byddai'n methu.³⁸

39. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig TUC Cymru yn mynegi pryderon mewn perthynas ag adran 7 o'r Bil sy'n ymdrin â chyfarfodydd, gweithdrefnau a chymorth gweinyddol y Cyngor. Ym marn TUC Cymru, o dan adran 7(5) o'r Bil sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru adolygu gweithdrefnau'r Cyngor, gallai roi pŵer "anghymesur" iddi o gymharu ag aelodau eraill y CPG.³⁹

40. Pan ofynnwyd i'r cyfreithiwr a oedd yn cefnogi'r Dirprwy Weinidog beth oedd diben cynnwys y pŵer hwn yn y Bil, dywedodd ei fod yn ddarpariaeth eithaf safonol.⁴⁰ Dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd aelodau'r CPG yn cael eu gwahodd i roi sylwadau ar weithdrefnau drafft cyn eu cyhoeddi.⁴¹

41. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, er mwyn monitro a gwerthuso effaith y CPG y bydd llawer o'r wybodaeth a'r cyngor a gynhyrchir gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i Weinidogion Cymru yn cael eu cyhoeddi, gan ychwanegu bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwmo i werthusiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith.⁴²

Aelodaeth o'r CPG

42. Mae Adran 2 yn nodi y bydd aelodaeth y CPG yn cynnwys tri math o aelod: aelodau o Lywodraeth Cymru (sy'n cynnwys y Prif Weinidog ac unrhyw un o Weinidogion Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw aelod o staff Llywodraeth Cymru), naw cynrychiolydd cyflogwyr yng Nghymru a naw cynrychiolydd gweithwyr yng Nghymru.

43. Clywsom amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch aelodaeth arfaethedig y CPG gyda nifer o randdeiliaid yn galw am gynrychiolaeth ychwanegol.

44. Hoffai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru weld y sector gwirfoddol yn cael ei gynrychioli ar y Cyngor, cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr. Cred y dylai'r

³⁸ Cofnod y Trafodion, [paragraff 222](#) a 289 – 27 Mehefin 2022

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TUC Cymru](#)

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, [paragraff 79](#) – 3 Hydref 2022

⁴¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 73](#) – 3 Hydref 2022

⁴² Cofnod y Trafodion, [paragraffau 55 a 56](#) – 20 Mehefin 2022

gwaith o ymgysylltu â'r sector fod yn un o sylfeini'r Cyngor yn hytrach nag ymarfer ticio bocsys.⁴³

45. Roedd Geraint Thomas o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cwestiynu a fyddai sectorau fel ei rai ef, a'r sector gwirfoddol, yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar y CPG.⁴⁴ Yn yr un modd, mynegodd Kirsty Cummings o Community Leisure UK bryderon ynghylch cynrychiolaeth (yn enwedig y sector gwirfoddol) a phwysleisiodd yr angen i ddeall gwahaniaethau o fewn sectorau.⁴⁵

46. Galwodd Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt) am sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn cael eu cynrychioli ar y Cyngor, fel cyflogwr arwyddocaol ac fel cynrychiolydd model busnes a allai wneud cyfraniad mwy sylweddol at gyflawni nodau llesiant Llywodraeth Cymru.⁴⁶

47. Cred Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan y dylai aelodaeth o'r CPG gynnwys arbenigwyr annibynnol. Dywedodd:

*"We have a lack of information, in my view, about the labour market in Wales and different aspects of it, and I think there's a risk—I'm not saying it will happen, but there is a risk that you end up with polarised opinions based on assumptions. I think if it's going to achieve its full potential, I would like to see people who have expertise in the labour market contributing and sitting around that table. So, for example, if things are said for which there is no evidence, that can be challenged."*⁴⁷

48. O ran aelodaeth o'r CPG pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog yr angen i gael nifer ymarferol o aelodau a'i reoli fel cyngor, yn hytrach na'r hyn a fyddai'n dod yn gynhadledd, yn ei barn hi. Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog mai'r aelodaeth deirochrog fel y'i rhagwelir gan y Bil oedd y ffordd gywir ymlaen ac y byddai modd cynnwys lleisiau annibynnol a/neu arbenigol drwy is-grwpiau'r CPG.⁴⁸

Cynrychioli gweithwyr nad ydynt yn aelodau o undeb

49. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cwestiynu "sut bydd y lefel isel o aelodaeth ag undebau llafur yng Nghymru" yn effeithio ar effaith y ddeddfwriaeth hon gan "nad

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 332 – 27 Mehefin 2022

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 174 – 11 Gorffennaf 2022

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwmpas

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 416 – 4 Gorffennaf 2022

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 83 ac 84 – 3 Hydref 2022

yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (SPC), o bosibl, yn clywed llawer o leisiau". Cred fod y diffyg cynrychiolaeth ar y Cyngor i weithwyr nad ydynt yn aelodau o undebau yn "bryder difrifol".⁴⁹

50. Dywed Colegau Cymru y gallai dewis cynrychiolwyr gweithwyr o undebau llafur yn unig eithrio nifer sylweddol o weithwyr a chreu system ddwy haen o ran llais y gweithwyr.⁵⁰ Amlygwyd ystadegau diweddar ganddynt sy'n dangos mai 31.9 y cant oedd cyfran y cyflogeion a oedd yn aelodau o undeb llafur yng Nghymru yn 2020 (o gymharu â ffigur y DU o 23.7 y cant).⁵¹ Mae data mwy diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn dangos, yn 2021, bod 35.6 y cant o gyflogeion Cymru yn aelodau o undeb llafur, gyda 62.4 y cant o weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru yn perthyn i undeb llafur.⁵²

51. Mynegodd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru bryderon hefyd, gan dynnu sylw at ei waith ymchwil sy'n dangos nad yw gweithwyr ar gyflogau is o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael llawer o gyfleoedd i leisio eu barn a'u bod yn llai tebygol o fod yn aelodau o undebau llafur.⁵³

Y prosesau ar gyfer enwebu cynrychiolwyr y Cyngor

52. Mae adran 5 o'r Bil yn amlinellu'r broses enwebu ar gyfer aelodau'r CPG, ac mae adran 5(2) yn nodi bod yn rhaid i'r Prif Weinidog geisio enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr gweithwyr o TUC Cymru.

53. Yn gyffredinol, clywsom ddau safbwynt gwahanol ar y mater hwn, gyda TUC Cymru a'i bartneriaid yn arddel un farn ac undebau heb ymlyniad wrth TUC Cymru ac eraill yn arddel barn arall.

54. Roedd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru yn anghytuno â'r broses enwebu ar gyfer cynrychiolwyr gweithwyr ac roedd yn galw am newidiadau i adran 5 fel y gall undebau heb ymlyniad wrth TUC ymgysylltu â'r CPG a chael eu henwebu i'r Cyngor. Awgrymodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y gellid gwneud hyn drwy ddiwygio'r Bil i ganiatáu enwebiadau gan unigolion y mae'r Prif Weinidog yn ystyried eu bod yn cynrychioli staff sy'n gweithio i bob categori o gyflogwr (y cyfeirir ato yn adran 3 o'r Bil) yn ogystal â TUC Cymru. Roedd y Coleg hefyd o'r farn

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Colegau Cymru](#)

⁵¹ Ffigurau a gymerwyd o Ystadegau Gwladol/BEIS, [Aelodaeth Undebau Llafur, y DU 1995-2020: Bwletin Ystadegol](#) (Mai 2021)

⁵² Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, [Ystadegau undebau llafur 2021](#)

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#)

y gallai'r Bil fel y'i diwygiwyd arwain at adael undebau heb ymlyniad wrth TUC allan o bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru a lleihau eu gallu i gydweithredu a chydweithio.⁵⁴

55. Mynegodd Colegau Cymru bryderon hefyd ynghylch y ffaith mai TUC Cymru yw'r corff a fydd yn enwebu cynrychiolwyr gweithwyr. Teimlai fod perygl y byddai hyn yn ffafrio barn aelodau'r undeb.⁵⁵

56. Nododd yr Athro Phil Banfield o Gymdeithas Feddygol Prydain Cymru eu pryderon ynghylch y CPG a'r broses enwebu arfaethedig:

*"If its function displaces the work of other social partnership working, then it threatens to slow down, obstruct, get in the way of effective social partnership working that's taking place, especially in the healthcare sector. It depends who is on that social partnership council. And whereas with the draft Bill, there was a discretion from the First Minister to appoint to the trade union side someone with particular expertise in any particular sector, that's disappeared. So, we would caution and have concerns about the nominating body being the TUC and, especially with regard to health, then potentially excluding the independent unions, i.e. the doctors' and the RCN."*⁵⁶

57. Ychwanegodd yr Athro Banfield fod hyn yn arbennig o bwysig ym maes iechyd:

*"[...]sadly, the record of the NHS in Wales and health boards has been quite patchy with regards to engagement of its staff, and particularly medical staff, and we know that there's a particular association between poor engagement and then poor outcomes. So, we were unclear as to why the process changed between the draft and the publication of the Bill, and it would seem sensible for us either to allow for non-affiliated unions to be able to be nominated or for nominations to not only be from the TUC, depending on what is felt to be the appropriate topic and sector at that time."*⁵⁷

58. Pwysleisiodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod tryloywder o amgylch y broses enwebu a gwneud penderfyniadau yn hanfodol "gan ystyried y dylanwad enfawr posibl y gallai'r CPG ei gael" a'i bod yn bwysig sicrhau bod "undebau llafur heb ymlyniad wrth blaid llywodraethu yn cael eu cynrychioli".⁵⁸

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Colegau Cymru

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 311 – 4 Gorffennaf 2022

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 324 – 4 Gorffennaf 2022

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

59. Cred TUC Cymru a NEU Cymru fod y broses enwebu a nodir yn y Bil ar hyn o bryd yn briodol. Dywedodd TUC Cymru y bydd angen iddi weithio gydag undebau llafur sydd heb ymlyniad wrth TUC Cymru i sicrhau eu bod yn barod i gefnogi gwaith y CPG fel y mae'n ei wneud eisoes ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gweithlu. Dywedodd y bydd yn sefydlu 'ochr undeb' sy'n penderfynu'n ddemocrataidd ar enwebiadau cynrychiolwyr gweithwyr i'r CPG a hefyd yn datblygu protocolau ar gyfer sut mae cynrychiolwyr gweithwyr yn ymgysylltu â'r mudiad undebau llafur ehangach.⁵⁹

60. Pwysleisiodd Richard Tompkins o Gyflogwyr GIG Cymru yr angen i glywed gan sefydliadau a sectorau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Cyngor a thynnodd sylw at y ffaith bod TUC yn ymgysylltu â sefydliadau heb ymlyniad, megis y Coleg Nyrsio Brenhinol mewn perthynas â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu.⁶⁰

61. Cred Bethan Thomas o Unsain y gellid copio'r trefniadau presennol sydd ar waith ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar gyfer y CPG:

*"I think it's important to note that we have had non-affiliated unions to the TUC sit in Workforce Partnership Council seats. So, it isn't the fact that they're not having a direct voice on some of these negotiating and consultation bodies. That does happen with the system that is currently in operation."*⁶¹

62. Tynnodd Darren Williams o PCS sylw at rôl gydgysylltu TUC Cymru:

*"[...] the obvious body to make these nominations as the umbrella organisation of the organised trade union movement—there is a commitment there to talk to the non-affiliated unions and ensure their inclusion in the same way that they are at the moment."*⁶²

63. Cred CLILC y dylai'r ddeddfwriaeth gydnabod sefydliadau cyflogwyr, megis CLILC ei hun, yn y broses ar gyfer enwebu cynrychiolwyr cyflogwyr, yn yr un modd ag y mae TUC Cymru yn cael ei chydabod yn y broses ar gyfer cynrychiolwyr gweithwyr.⁶³

64. Yn ein sesiwn dystiolaeth gyntaf, dywedodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol y byddai disgwyl na fyddai'r enwebiadau'n ymwneud â'r undebau llafur hynny sydd ag ymlyniad presennol wrth TUC Cymru yn unig. Nododd ei swyddog fod Llywodraeth

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 228-230 – 27 Mehefin 2022

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 214 – 4 Gorffennaf 2022

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 217 – 4 Gorffennaf 2022

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cymru yn bwriadu rhoi dyletswydd ar TUC Cymru i gyflwyno enwebiadau o'r etholaeth undeb llafur ehangach honno.⁶⁴

65. Yn ystod yr ail sesiwn dystiolaeth, holwyd y Dirprwy Weinidog eto ynghylch pryderon undebau llafur llai ac undebau llafur heb ymlyniad a chadarnhaodd na fyddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio'r Bil i warantu cynrychiolaeth i undebau llafur heb ymlyniad fel rhan o'r broses enwebu:

*"Firstly, it's not our intention to amend the Bill to legislate for that. As we said at the outset, our position is we strongly encourage all representative bodies to make diverse and inclusive nominations, as we've come to expect. I know that, during their evidence to this committee, the Wales TUC, or union representatives, intimated a commitment on behalf of Wales TUC to ensure that non-affiliated unions are part of that process and that they ensure their inclusion, the same way they would do for many aspects of work that we do now as well.[...] I know there is a commitment from Wales TUC to take on board those concerns and to ensure that those unions are part of those conversations and are able to be represented."*⁶⁵

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â gweithrediadau'r Cyngor

66. Nododd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru nifer o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb o ran y CPG, gan gynnwys yn ogystal â "Chymru lewyrchus", y dylai'r Cyngor roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar nodau llesiant eraill, yn enwedig "Cymru sy'n fwy cyfartal". Mae Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru hefyd am i Lywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn sicrhau amrywiaeth ymhlith aelodau'r Cyngor. At hynny, roedd yn galw am is-grŵp Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r Cyngor er mwyn sicrhau bod hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn rhan annatod o ddarparu gwaith teg.⁶⁶

67. Galwodd Chwarae Teg am ddiwygio'r Bil i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ac amrywiaeth o ran y Cyngor, ac i Lywodraeth Cymru roi gofyniad ar aelodau'r CPG i ddangos sut y maent wedi ymrwymo i weithredu ar degwch rhwng y rhywiau.⁶⁷

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 79 ac 83 – 20 Mehefin 2022

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 100 – 3 Hydref 2022

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

68. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y gallai lefelau is o aelodaeth undebau llafur ymhlith gweithwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig olygu na fydd eu lleisiau o bosibl yn cael eu clywed.⁶⁸

69. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg wrthym y dylai fod yn ofynnol i ddarpar aelodau'r CPG feddu ar ddealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac y dylai'r gofyniad hwn fod ar wyneb y Bil. Roedd tystiolaeth y Comisiynydd hefyd yn galw am eglurder ynglŷn â sut y bydd y CPG yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, sut y bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yng ngwaith y CPG, a rôl yr iaith yng nghyfarfodydd y Cyngor a gwaith arall.⁶⁹

70. O ran y broses benodi, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, er bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried mabwysiadu proses penodiadau cyhoeddus llawn ar gyfer y CPG, nad oedd hyn yn gydnaws â'r broses enwebu a nodir yn y Bil. Fodd bynnag, byddai'n ystyried pa agweddau ar y broses penodiadau cyhoeddus y gellid eu hadlewyrchu neu eu mabwysiadu, gan gynnwys y defnydd o ddisgrifiadau swydd a manylebau person ar gyfer aelodau'r CPG.⁷⁰

71. O ran amrywiaeth, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol cyn sefydlu'r CPG i ddatblygu gofynion amrywiaeth ar gyfer y CPG drwy ei gweithdrefnau.⁷¹

72. Gofynnem i'r Dirprwy Weinidog egluro a fydd y CPG yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg; dywedodd y bydd gweithdrefnau'n cael eu drafftio i ddarparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn ystod busnes y CPG, a chynnwys siaradwyr Cymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith yn genedlaethol, a bydd hynny'n llywio rhan o weithdrefnau cyhoeddus y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.⁷²

Safbwynt y Pwyllgor

Rôl a gweithrediad y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

Mae cynigion ar gyfer creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol teirochrog wrth wraidd y Bil. Mae gosod trefniadau partneriaeth gymdeithasol presennol ar sail statudol yn cyflwyno heriau a chyfleoedd. Clywsom fod y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi chwarae rhan bwysig yn ystod y pandemig a'r gobaith yw y bydd CPG newydd, sydd wedi'i ymgorffori yn y

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Comisiynydd y Gymraeg](#)

⁷⁰ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) – 22 Gorffennaf 2022](#).

⁷¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 92](#) – 20 Mehefin 2022

⁷² Cofnod y Trafodion, [paragraff 97](#) – 3 Hydref 2022

gyfraith, yn adeiladu ar ei waith ac yn rhoi mwy o sicrwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod na fydd creu'r CPG ynddo'i hun yn gwneud llawer i hyrwyddo amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru oni bai bod gan y Cyngor ffocws clir ar gyfer ei waith. Bydd angen cylch gorchwyl cryno a gweithdrefnau cadarn.

Credwn fod angen diffinio rôl a ffocws gwaith y CPG yn gliriach ac y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i gyflawni hyn fel mater o flaenoriaeth. O ran gweithdrefn, rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd inni fod perygl y gall y pwerau o dan adran 7(5) o'r Bil sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru adolygu gweithdrefnau'r Cyngor roi pŵer anghymesur i Weinidogion dros aelodau eraill o'r Cyngor ac nad ydynt yn adlewyrchu ysbryd partneriaeth gymdeithasol yn cael ei harddel yn y ddeddfwriaeth. Rydym yn glir felly bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r ddarpariaeth hon i gynnwys naill ai dyletswydd i ymgynghori ag aelodau eraill y CPG, neu geisio cymeradwyaeth, cyn gwneud diwygiadau i weithdrefnau'r CPG.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio rôl y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn gliriach drwy weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i gytuno ar glych gorchwyl cryno, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ar gyfer ei gwaith. Dylid bwrw ymlaen â hyn fel mater o flaenoriaeth a dim hwyrach nag wythnos cyn i drafodion Cyfnod 3 gael eu cynnal.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 7(5) o'r Bil yng Nghyfnod 2 i gynnwys naill ai dyletswydd i ymgynghori ag aelodau eraill o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, neu geisio cymeradwyaeth y Cyngor, cyn gwneud diwygiadau i weithdrefnau'r Cyngor.

Is-grwpiau'r Cyngorau Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r darpariaethau ar gyfer creu is-grŵp caffael cyhoeddus o'r CPG yn ddealladwy o ystyried pwyslais y ddeddfwriaeth arfaethedig ar gaffael. Mae'n llai clir, fodd bynnag, pam mae'r is-grŵp hwn wedi'i flaenoriaethu i'w gynnwys ar wyneb y Bil uwchlaw unrhyw is-grwpiau posibl eraill. Nodwn y cyflwynwyd sawl syniad ar gyfer is-grwpiau ychwanegol i gwmpasu materion megis y trydydd sector, mentrau cymdeithasol, a gwaith teg. Cawsant eu nodi hefyd gan rai fel ffordd i'r CPG gynnwys lleisiau eraill, annibynnol, arbenigedd a chyngor technegol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru nodi'n gliriach ei bwriadau ar gyfer creu is-grwpiau CPG ychwanegol a'r rôl y mae'n disgwyl i'r is-grwpiau hyn ei chwarae. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru nodi a yw'n bwriadu cynnwys darpariaethau ar gyfer unrhyw is-grwpiau ychwanegol ar wyneb y Bil ac os nad yw am wneud hynny, amlinellu ei rhesymau.

Argymhelliad 5. Yn unol â'r angen am rôl a chylch gorchwyl wedi'u diffinio'n gliriach dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol ar ffyrdd o weithio, gan gynnwys a fyddai dull 'gorchwyl a gorffen' yn arwain at ganlyniadau diriaethol, gwell ar rai materion. Dylai Llywodraeth Cymru nodi a yw'n bwriadu creu unrhyw is-grwpiau ychwanegol, ac os felly pa rôl a swyddogaethau y mae'n disgwyl i'r is-grwpiau hynny eu cyflawni.

Argymhelliad 6. Wrth nodi ei bwriadau mewn perthynas â chreu is-grwpiau ychwanegol, dylai Llywodraeth Cymru:

- ymgynghori â darpar bartneriaid cymdeithasol ar y ffyrdd o weithio a ffefrir, gan gynnwys a fyddai dull 'gorchwyl a gorffen' yn arwain at ganlyniadau gwell ar rhai materion; a
- chadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i gynnwys y rhain ar wyneb y Bil yn unol â'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â'r is-grŵp caffael cyhoeddus.

Enwebiadau ac aelodaeth o'r CPG

Bydd aelodau unigol o'r CPG yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio'r agenda partneriaeth gymdeithasol yn y dyfodol yng Nghymru os daw'r Bil hwn yn gyfraith. Clywsom bryderon, fodd bynnag, ynghylch y broses ar gyfer enwebu a phenodi ei haelodau, yn enwedig ar ochr y cyflogeion. Yn wahanol i'r Bil Drafft, mae darpariaethau'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn golygu mai dim ond cynrychiolwyr cyflogeion sydd wedi'u henwebu gan TUC Cymru y gall y Prif Weinidog eu penodi. Mae perygl y gallai cyfyngu'r enwebiadau i'r rhai a enwebir gan TUC Cymru yn unig adael nifer sylweddol o weithwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn aelodau o undeb, heb lais ar y CPG. At hynny, mynegodd undebau llafur eraill nad oes ganddynt ymlyniad wrth TUC bryderon ynghylch goblygiadau'r broses enwebu arfaethedig ar rai sectorau sydd â chrynodeiad uchel o undebau nad oes ganddynt ymlyniad ond sy'n rhan sylweddol o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gofal iechyd.

Mae prosesau eisoes yn bodoli i gynnwys aelodau undeb llafur heb ymlyniad, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu. Gellid mabwysiadu'r prosesau hyn yng nghyd-destun y CPG ac rydym yn croesawu'r sicrwydd a gafwyd yn hynny o beth gan TUC Cymru. Fodd bynnag, nid yw sicrwydd llafar yn cymryd lle darpariaethau cyfreithiol. Hoffem weld darpariaethau ar gyfer aelodau undeb llafur heb ymlyniad yn cael eu cryfhau. Y ffordd fwyaf syml o gyflawni hyn fyddai diwygio'r Bil a gosod gofyniad ar TUC Cymru i enwebu cyfran benodol o aelodau undeb heb ymlyniad i'r CPG fel rhan o'r broses enwebu. Byddai hyn yn darparu amddiffyniad cyfreithiol a fyddai, yn ein barn ni, yn gwneud llawer i fynd i'r afael â phryderon undebau llafur heb ymlyniad a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar TUC Cymru i enwebu cyfran benodol o aelodau undeb nad ydynt yn perthyn i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel rhan o'r broses enwebu.

Mae'n hanfodol bwysig bod aelodaeth o'r CPG yn cynrychioli amrywiaeth Cymru heddiw ac yfory. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl flaenllaw yn y broses o bennu gofynion uchelgeisiol o ran amrywiaeth cynrychiolaeth yn y penodiadau a wneir i'r CPG, a chytuno ar y gofynion hynny. Yn ogystal â helpu tryloywder, gallai cyhoeddi disgrifiadau swydd a manylebau person ar gyfer aelodau CPG hefyd helpu i ddenu ystod fwy amrywiol o enwebeion ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog yn ymchwilio i hyn yn fanylach.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gynnal trafodaethau cynnar gyda phartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod y prosesau ar gyfer penodi'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cynnwys gofynion uchelgeisiol ar gyfer amrywiaeth cynrychiolaeth sy'n ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig ac yn sicrhau dosbarthiad daearyddol eang.

4. Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol

Os daw'r Bil yn gyfraith, bydd dyletswydd partneriaeth gymdeithasol newydd yn ei gwneud yn ofynnol i lawer o gyrff cyhoeddus datganoledig "geisio consensws neu gyfaddawd" o dan rai amgylchiadau.

73. Mae adrannau 16 i 19 yn ymdrin â threfniadau ar gyfer creu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol newydd ar rai cyrff cyhoeddus. Byddai'r ddyletswydd newydd a grëir gan adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol, "geisio consensws neu gyfaddawd" yn bennaf â'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol i gyflawni'r amcanion hynny o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.⁷³ Pan nad oes gan gorff cyhoeddus undeb llafur cydnabyddedig, rhaid iddo "geisio consensws neu gyfaddawd" gyda chynrychiolwyr ei weithlu.

74. Roedd nifer o sefydliadau'n croesawu cyflwyno'r ddyletswydd hon, gan gynnwys NEU Cymru, Uno'r Undeb, GMB, y Sefydliad Materion Cymreig, Colegau Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a CLILC.⁷⁴ Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig wrthym y gallai'r ddyletswydd i "geisio consensws a chyfaddawd" fod yn gymhellant ychwanegol i gyrff cyhoeddus nad oes ganddynt drefniadau partneriaeth gymdeithasol ffurfiol i sefydlu trefniadau o'r fath, ac mae'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad blynyddol y cytunir arno ar y cyd â chynrychiolwyr y gweithlu yn allweddol.⁷⁵

75. Dywedodd Darren Williams o PCS wrthym fod y ddyletswydd newydd yn mynd â'r diwylliant sydd wedi'i feithrin yng Nghymru dros y degawd diwethaf i lefel arall ac mae'n sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer unrhyw bryderon y gallai undebau neu unrhyw un arall deimlo sy'n bodoli o ran y trefniadau gyda chyflogwyr.⁷⁶

⁷³ Memorandwm Esboniadol; gweler hefyd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NEU Cymru; Uno'r Undeb; GMB; y Sefydliad Materion Cymreig; Colegau Cymru; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru; CLILC

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Materion Cymreig

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 228 – 4 Gorffennaf 2022

76. Dywedodd CLILC fod y ddyletswydd yn cynnig cyfle i ddatblygu dealltwriaeth gyson o bartneriaeth gymdeithasol er mwyn llywio arfer ar draws gwahanol sefydliadau.⁷⁷

77. Cred Colegau Cymru fod gan y ddyletswydd y potensial i gynyddu effaith nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.⁷⁸

78. Mynegodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bryderon ynghylch cyflwyno'r ddyletswydd. Ym marn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, er y dylai cyrff cyhoeddus geisio consensws ymhlith eu staff, ni ddylai hynny gynnwys undebau llafur yn unig. Dywedodd y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol hefyd na ddylai sicrhau consensws rhwng cyrff cyhoeddus ac undebau olygu bod yn rhaid cyfaddawdu mewn meysydd fel cydraddoldeb ac ymrwymïadau amgylcheddol.

79. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fod potensial i'r ddyletswydd hon ddychafu cyfraniad yr undebau llafur "yn annheg uwchlaw eraill" y mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â hwy wrth ddatblygu eu nodau llesiant. Galwyd am fwy o eglurder ynghylch geiriad y ddyletswydd gan nodi bod y "gair 'ceisio' yn amwys ac nid yw'n glir pa broses a fyddai'n cael ei dilyn os na cheir consensws". Cred pan fydd gan gyflogwr ac undebau llafur amcanion gwahanol, na ellir cyrraedd consensws.⁷⁹

80. Mae Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ac Archwilio Cymru ill dau wedi galw am eglurhad o'r hyn y bydd y ddyletswydd newydd yn ei olygu yn ymarferol. Mae'r ddau sefydliad wedi galw am ragor o ganllawiau ar beth yw ystyr ymarferol "penderfyniadau o natur strategol", a hoffai Archwilio Cymru i Weinidogion nodi sut y gellir sicrhau "consensws a chyfaddawd" mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn bodloni'r elfen hon o'r ddyletswydd.⁸⁰

81. Roedd sut i gymhwyso'r ddyletswydd newydd yn ymarferol yn gwestiwn allweddol i Sefydliad Bevan. Dywedodd Dr Victoria Winckler:

"The principle of duties—it's not something you can object to, but I think the challenge is turning that into practical action, and I think there needs to be policy development that looks at the how.[...] It's all very well saying, 'Here's a duty', but I think because this is in fairly uncharted territory, I think there needs to be more about the how and also probably help to grease the wheels to help people to find solutions, help the public bodies to find the solutions that they're being asked to find. I mean, it would be lovely if there was some

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Colegau Cymru](#)

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#)

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#); [Archwilio Cymru](#)

sort of innovation fund around this to help and support people to develop solutions."⁸¹

Cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y ddyletswydd

82. Galwodd rhai rhanddeiliaid am i gyrff cyhoeddus ychwanegol ddod o dan y ddyletswydd newydd. Mae NEU Cymru wedi galw am ychwanegu sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a Chomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru at y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd.⁸²

83. Cred TUC Cymru y dylid diwygio'r Bil hwn a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel bod y sector cyhoeddus cyfan yn gallu elwa, gan gynnwys ysgolion.⁸³ Ategwyd y farn hon gan Bethan Thomas o Unsain a fynegodd siom nad oedd y ddyletswydd yn ymestyn i gyrff llywodraethu ysgolion, addysg uwch ac addysg bellach. Cred mai dyma'r sector a allai gael y budd mwyaf o ddatblygu partneriaeth gymdeithasol wrth symud ymlaen".⁸⁴

84. Mae Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth yn croesawu'r cynigion i gynnwys Trafnidiaeth Cymru o fewn cwmpas y Bil, yn dibynnu ar ganlyniad cynnig Llywodraeth Cymru i wneud y corff hwnnw a saith corff cyhoeddus arall yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.⁸⁵

85. Cytunodd TUC, PCS, Unsain, Uno'r Undeb a GMB i gyd y dylid ystyried cynnwys sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, megis y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth.⁸⁶

86. Yn ystod ein sesiwn gyntaf gyda'r Dirprwy Weinidog, cawsom wybod bod y diffiniad o sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach at ddiben cyfrifon cenedlaethol yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu cwmpasu gan y ddyletswydd. Dywedodd un o swyddogion y Dirprwy Weinidog:

"The Office of National Statistics is the body that defines which are public sector organisations, which are private and which are these odd kind of middle category not-for-profit institutions serving households—NPISH. And currently, both FE and HE institutions—I can't speak for RSLs—are classified

⁸¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 426](#) – 4 Gorffennaf 2022

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, [NEU Cymru](#)

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TUC Cymru](#)

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 235](#) – 4 Gorffennaf 2022

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth](#)

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 259-264](#) – 4 Gorffennaf 2022; [paragraff 379](#) – 4 Gorffennaf 2022

*as not-for-profit institutions serving households. I don't think the ONS interest in that question has ever gone away, really. So, whereas we legislated some time ago, it is still eminently possible that another route, albeit we have a route within the legislation for regulation so it might change the status of FE, HE or RSLs in the future, another route might be outside our control in the form of any current or future reviews by ONS as to the status of those bodies for national accounting purposes."*⁸⁷

87. Ymhelaethodd y Dirprwy Weinidog a'i swyddog ar hyn yn yr ail sesiwn dystiolaeth, pan gadarnhaodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y mater hwn.⁸⁸

Y cysylltiad â'r ddyletswydd llesiant

88. Yn ddiweddar, adolygodd Llywodraeth Cymru gwmpas y ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac mae wedi ymgynghori ar y posibilrwydd o wneud wyth corff arall yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon.⁸⁹ Mae hyn yn berthnasol i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, oherwydd i gael ei gwmpasu gan y ddyletswydd hon rhaid i gorff gael ei ddsbarthu fel corff cyhoeddus o dan adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys manylion am y meini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylai corff fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

89. Y meini prawf hyn yw bod yn rhaid i gorff sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn gorff cyhoeddus; fod dros 50 y cant ohono'n cael ei ariannu'n gyhoeddus; ei fod yn cymryd camau sy'n effeithio ar faterion economaidd, cymdeithasol a llesiant yng Nghymru neu ei ardal leol; bod ganddo swyddogaethau strategol; a bod gan yr Archwilydd Cyffredinol yr awdurdod i'w archwilio.

90. Nododd Llywodraeth Cymru ei rhesymeg dros beidio â chynnwys cyrff eraill yn y ddogfen ymgynghori, gan nodi, mewn perthynas â Sefydliadau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach:

"Mae Sefydliadau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach yn cael eu heithrio am eu bod yn sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd sy'n annibynnol ar reolaeth y llywodraeth ac nad ydynt yn archwiliadwy.

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 50](#) – 20 Mehefin 2022

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, [paragraff 113](#) – 3 Hydref 2022

⁸⁹ Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad ar gyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant \(Rhan 2\) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ('y Bil') yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd. Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am ariannu, goruchwyllo a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n un o'r cyrff cyhoeddus presennol sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant corff unigol. Bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd.

Yn ogystal, mae'r Bil yn creu dyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig gan ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliadau yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach. Diffinnir 'cenhadaeth ddinesig' yn is-adran (3) fel 'gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu sydd wedi ei anelu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc2))'.⁹⁰

91. Nid yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ychwaith wedi'u cynnwys o dan gwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru oherwydd y lefelau amrywiol o arian cyhoeddus y maent yn eu derbyn.⁹¹

Y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a dyletswyddau cyfredol eraill

92. Wrth osod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol newydd ar gyrff cyhoeddus, nododd Chwarae Teg fod y dyletswyddau cyfreithiol hyn yn gorgyffwrdd mewn rhai achosion. Cawsom wybod y byddai angen mwy o waith i gysoni prosesau cyrff cyhoeddus ac i leihau dyblygu a phwysau ar adnoddau. At hynny, roedd o'r farn y byddai cysoni dyletswyddau adrodd ar gyfer y Bil hwn, Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn helpu i gyflwyno'r dadansoddiad o gydraddoldeb sy'n hollbwysig ym marn Chwarae Teg.⁹²

93. Yn yr un modd, disgrifiodd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru synergeddau posibl wrth gysoni'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol â Dyletswyddau Cydraddoldeb y

⁹⁰ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar gyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan 2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

⁹¹ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar gyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan 2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

Sector Cyhoeddus tra'n mynegi pryder nad oes cyfeiriad atynt yn y Bil na'r Memorandwm Esboniadol.⁹³

94. Mae TUC Cymru wedi awgrymu y gellid diwygio'r Bil er mwyn caniatáu ar gyfer ehangu'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y dyfodol i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgynghori ag undebau llafur mewn perthynas â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.⁹⁴

Cydymffurfio â'r ddyletswydd

95. Mae adran 18 yn darparu bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus lunio adroddiadau blynyddol sy'n nodi cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol.

96. Tynnodd Sefydliad Bevan sylw at y dystiolaeth gyfyngedig iawn bod gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus yn arwain at welliannau sylweddol, ac y gall dyletswyddau annog gyrff cyhoeddus i fabwysiadu dull ticio blychau.⁹⁵ Roedd adroddiad gan Archwilio Cymru ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022 yn mynegi pryderon tebyg mewn perthynas ag asesiadau a gynhaliwyd o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.⁹⁶

97. Nid oedd gan dystion yr undebau llafur lawer o awydd am y syniad o gosbau ariannol neu sancsiynau fel modd o sicrhau cydymffurfiaeth. Disgrifiodd PCS yr awgrym fel un gwrthgynhyrchiol a dywedodd Mary Williams o Uno'r Undeb ei bod yn ddadl galed yn yr hinsawdd bresennol.⁹⁷

98. Cred Bethan Thomas o Unsain, er bod cydymffurfio yn heriol, y byddai angen dysgu gwersi o fannau eraill:

*"I think it is very difficult, when we're talking about public money, to say that there should be fines associated with anything like that, because, essentially, we're talking about public money just being recycled. But I think it is something that should be considered as part of the discussions around the Bill about what compliance could look like, how we strengthen that reporting duty."*⁹⁸

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 410 a 411 – 4 Gorffennaf 2022; Sefydliad Bevan "Ein barn ni ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol Drafft" (Saesneg yn unig)

⁹⁶ Archwilio Cymru, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 239 a 348 – 4 Gorffennaf 2022

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 237 – 4 Gorffennaf 2022

99. Roedd Nisreen Mansour o TUC Cymru yn galw am archwilio ymhellach y syniad o ddatblygu corff tebyg i ACAS a dywedodd y dylai'r ffocws fod ar feithrin perthnasoedd.⁹⁹

100. Roedd Tom Hoyles o GMB yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar gyfryngu, gan nodi: "Yes, I think we'd be very open to that...framing it around conflict resolution is what we do, what we work best with, and I think we'd be broadly in favour of that".¹⁰⁰ Mynegodd Mary Williams o Uno'r Undeb ei chefnogaeth i'r dull hwn hefyd.

101. Mynegodd yr Athro Philip Banfield o BMA Cymru bryderon ynghylch gallu cyrff cyhoeddus ac undebau i gytuno ar adroddiadau partneriaeth gymdeithasol mewn sectorau fel gofal iechyd lle mae nifer fawr o undebau a chymhlethdodau ychwanegol.¹⁰¹

102. Gan ymateb i bryderon y gallai'r ddyletswydd newydd ddod yn ymarfer ticio blychau, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod hyn yn rhywbeth yr oeddent yn ymwybodol ohono wrth ddrafftio'r ddeddfwriaeth. Ymhelaethodd ei swyddog ar y pwynt hwn:

*"It's a common criticism of Government, isn't it, that we tend to adopt a sort of catapult approach to policy development and implementation? We come up with what sound like impressive policies within Government, we chuck them over the walls and we expect something to happen with them; we expect public bodies or others out there to deliver on the promises that we've made as a Government. We're not doing that in this case. We're seeking here to put in place the mechanics, the nuts and bolts, of a system that will allow us to drive improvement over time, which will allow us to track how well the system is performing, will allow us to measure to what extent social partnership is in fact contributing to the improvement of well-being through, in part, the improvement of public services in Wales."*¹⁰²

103. Mewn ymateb i'n cais i amlinellu dull Llywodraeth Cymru pe bai'r CPG yn cael nifer sylweddol o geisiadau i gyfryngu lle nad yw'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol wedi'i bodloni, dywedodd y Dirprwy Weinidog nad yw cyfryngu yn swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.¹⁰³

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 241](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion, [paragraff 356](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 338](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁰² Cofnod y Trafodion, [paragraffau 35 a 36](#) – 3 Hydref 2022

¹⁰³ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#) – 14 Hydref 2022

Dyletswyddau ar wahân i Weinidogion Cymru

104. Mae adran 17 o'r Bil yn creu dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar wahân i Weinidogion Cymru, nad yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori ag undebau llafur na'r CPG wrth ddatblygu eu nodau llesiant.

105. Cred y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol fod y broses ar gyfer pennu nodau llesiant gan Weinidogion Cymru yn golygu bod angen dyletswydd ar wahân ac y byddai gwneud fel arall yn amlwg yn tanseilio'r broses ddemocrataidd.¹⁰⁴ Yn ystod yr ail sesiwn dystiolaeth ailadroddodd y Dirprwy Weinidog ei barn bod dyletswydd ar wahân yn briodol, a chred nad yw cyrff eraill, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, yn gosod eu nodau llesiant o fewn amserlenni etholiadol, gan arwain at ddull sy'n fwy cyffredinol ei natur.¹⁰⁵

106. Nododd Archwilio Cymru, os derbynnir y ddadl dros gael dyletswydd ar wahân i Weinidogion Cymru, dylid ystyried a ddylai hefyd fod dyletswydd ar wahân i awdurdodau lleol etholedig mewn achosion pan etholwyd y grŵp rheoli ar ôl cyhoeddi maniffesto polisi clir.¹⁰⁶

107. Roedd tystiolaeth TUC Cymru yn credu yn yr un modd y dylai fod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r CPG ar ei nodau llesiant, gan ddisgrifio'r ddyletswydd ar wahân fel "eithriad rhyfedd i'r egwyddorion y tu ôl i rôl y CPG a'r syniad y dylai partneriaid cymdeithasol gael rôl mewn perthynas â gosod amcanion llesiant".¹⁰⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Dylai'r ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig helpu i sicrhau mwy o gysondeb mewn trefniadau partneriaeth gymdeithasol ar draws cyfran sylweddol o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd pa sefydliadau o fewn y sector cyhoeddus datganoledig y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt yn faes dadleuol allweddol. Clywsom alwadau, yn bennaf gan undebau llafur, am ymestyn y ddyletswydd i gwmpasu cyrff eraill sy'n derbyn cyllid cyhoeddus sylweddol, gan gynnwys sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fodd bynnag, yn ôl y Dirprwy Weinidog, mae hyn yn cael ei wneud yn anodd gan eu statws o dan reolau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fel *sefydliadau nid-er-elw*

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 50](#) – 20 Mehefin 2022

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraff 124](#) – 3 Hydref 2022

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Archwilio Cymru](#)

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TUC Cymru](#)

sy'n gwasanaethu aelwydydd yn hytrach na chael eu dosbarthu fel rhai o fewn y sector cyhoeddus.

Nodwn y heriau posibl hyn mewn perthynas â statws cyfrifyddu sefydliadau, ond credwn ei fod yn afreolaidd y defnyddir hyn gan y Llywodraeth fel penderfynydd allweddol o ran a yw sefydliadau sy'n cael cyllid cyhoeddus sylweddol yn cael eu cwmpasu gan y ddyletswydd bwysig hon.

At hynny, mae gan Lywodraeth Cymru feini prawf clir ar gyfer gwneud cyrff pellach yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys: fod dros 50 y cant ohono'n cael ei ariannu'n gyhoeddus; ei fod yn cyflawniswyddogaethau strategol; a bod gan yr Archwilydd Cyffredinol yr awdurdod i'w archwilio.¹⁰⁸ Mae'r meini prawf hyn wedi'u cymhwyso ar gyfer yr adolygiad diweddar ac nid yw llawer o'r cyrff a awgrymwyd inni i'w cynnwys yn y Bil hwn yn bolodni'r meini prawf.

Ar y cyfan, nid ydym yn argymhell gwneud cyrff ychwanegol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, ac yn hytrach rydym wedi blaenoriaethu ehangu cwmpas y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol (y sonnir amdani yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).

Gorfodi a chydymffurfio

Er nad yw'r dystiolaeth ar gydymffurfiaeth yn ffafrio sancsiynau cosbol na mesurau gorfodi, mae'r Bil fel y mae yn dawel ar y mater o gyfryngu a datrys anghydfodau. Mewn achosion lle mae'n bosibl nad yw cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r ddyletswydd, credwn fod angen dull mwy rhagweithiol. Fel cam cyntaf, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r dystiolaeth sydd ganddi i gefnogi ei barn nad oes angen mecanwaith cyfryngu ffurfiol ar wyneb y Bil, gan gynnwys manylion am unrhyw ymgynghoriad y mae wedi'i gael â phartneriaid cymdeithasol. Dylai hefyd amlinellu ei mecanwaith a ffeirir ar gyfer datrys anghydfodau, gan gynnwys canllawiau ar yr amgylchiadau lle defnyddir y mecanwaith hwn.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn ymateb i'r adroddiad hwn:

- y dystiolaeth sydd ganddi i gefnogi ei barn nad oes angen mecanwaith cyfryngu ffurfiol ar wyneb y Bil, gan gynnwys manylion am sut y mae wedi ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol

¹⁰⁸ Am restr lawn o'r meini prawf, gweler: Llywodraeth Cymru, [Ymgynghoriad ar gyrfi cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant \(Rhan 2\) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

- y mecanwaith a ffefrir ganddi ar gyfer datrys anghydfodau mewn achosion lle canfyddir nad yw cyrff cyhoeddus yn bodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol; a
- chanllawiau ar yr amgylchiadau pan fyddai'r mecanwaith a ffefrir yn cael ei ddefnyddio.

5. Gwaith teg

Ers y Bil Drafft, mae'r Llywodraeth wedi newid darpariaethau allweddol yn ymwneud â gwaith teg. Gwnaeth y newidiadau hyn y darpariaethau yn ehangach, ond yn wannach o bosibl.

Newidiadau ers y Bil drafft

108. Roedd y Bil drafft yn cynnwys darpariaethau a fyddai wedi creu "Nod Gwaith Teg" ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod a chyhoeddi nodau gwaith teg, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r rhain, a gosod adroddiad blynyddol gerbron y Senedd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni nodau. Cafodd y darpariaethau hyn eu disodli gan adran 20 o'r Bil, sy'n diwygio'r nod "Cymru Lewyrchus" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i roi "gwaith teg" yn lle "gwaith addas".

109. Mynegwyd pryderon gan yr Athro Alan Felstead a Chwarae Teg ynghylch y gwahaniaethau yn y modd y cafodd gwaith teg ei gynnwys yn y Bil Drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Roedd Chwarae Teg yn cwestiynu i ba raddau y byddai darpariaethau newydd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn ysgogi newid ystyrion.¹⁰⁹ Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Felstead wrthym fod gan y newidiadau y potensial i wanhau'r Bil, gan fod y dull a ddefnyddiwyd yn gosod gwaith teg ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu â'i gilydd o fewn nod 'Cymru Lewyrchus' a gallai wanhau canlyniadau. Dywedodd yr Athro Felstead hefyd fod yr hyn sy'n cael ei ddiffinio yn cael ei gyflawni, a mynegodd bryder nad oes diffiniad o waith teg yn y Bil a gyflwynwyd i'r Senedd er ei fod yn credu y gallai hyn ymwneud â ffiniau'r setliad datganoli.¹¹⁰

110. Awgrymodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru nad yw'r diffiniad o waith teg a ddatblygwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg yn cyd-fynd â'r setliad datganoli presennol, ac roedd yn cwestiynu yn hytrach na rhoi grym cyfreithiol i'r diffiniad, y byddai'n well ei ddefnyddio fel egwyddor lywodraethu i lunio'r ddeddfwriaeth.¹¹¹

111. Roedd y Dirprwy Weinidog o'r farn bod y darpariaethau presennol yn welliant ar y Bil drafft gan eu bod yn cwmpasu cyrff cyhoeddus ac nid Llywodraeth Cymru yn unig, sy'n

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 234 – 11 Gorffennaf 2022

¹¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

adlewyrchu'r rôl sydd gan gyrff cyhoeddus o ran arwain drwy esiampl, ac nid yw'n cyflwyno gofynion adrodd ar wahân.¹¹²

Gwaith teg yn y Bil fel y'i cyflwynwyd

112. Mae adran 20 o'r Bil yn diwygio'r nod "Cymru Lewyrchus" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i roi "gwaith teg" yn lle "gwaith addas". Mae'r ddarpariaeth yn gosod gofynion ar gyrff cyhoeddus i ystyried gwaith teg wrth osod a chymryd camau i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt tuag at gyflawni'r nod llesiant cyffredinol.

113. Roedd nifer o gyrff yn croesawu'r dull hwn, gan gynnwys Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth, y Sefydliad Materion Cymreig, Colegau Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.¹¹³

114. Dywedodd Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru wrthym y dylai egwyddorion "gwaith teg" neu "waith addas" fod yn berthnasol i bob gweithiwr yng Nghymru nid dim ond y rhai yn y sector cyhoeddus, ac y byddai angen i'r Bil fynd i'r afael â'r anghysondeb posibl rhwng dyfarniadau pris isaf ar gyfer contractau adeiladu a sicrhau gwaith addas.¹¹⁴

115. Nid oedd Shân Morris a Helen Rees, sy'n cynrychioli'r awdurdodau tân ac achub, o blaid ymagwedd 'un ateb i bawb' tuag at y nod gwaith teg a thynnwyd sylw at wahanol strwythurau a modelau cyflogaeth y sector (gyda llawer o ddiffoddwyr tân yn cael eu cadw ar sail 'ar alwad') fel enghraifft.¹¹⁵

116. Dywedodd Marie Brousseau-Navarro, Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mai un o'r canfyddiadau mwyaf trawiadol wrth ddadansoddi nodau llesiant oedd bod gyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar gyflogaeth a thwf economaidd, ond nad ydynt wedi cynnwys nodau ar 'waith addas'. Nododd:

*"The Welsh Government was the only public body that had specific well-being objectives to tackle regional inequalities and promote fair work, so the only one with a specific reference to fair work or decent work, and Cardiff had made references to being a real living wage employer."*¹¹⁶

¹¹² Cofnod y Trafodion, [paragraffau 120 i 123](#) – 20 Mehefin 2022

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth, y Sefydliad Materion Cymreig, Colegau Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru](#)

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 350 i 352](#) – 27 Mehefin 2022

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 324](#) – 11 Gorffennaf 2022

117. Galwodd yr Athro Lydia Hayes a'r Athro Alan Felstead ill dau am greu Dirprwy Gomisiynydd Gwaith Teg yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd yr Athro Hayes:

*"[...]public organisations are going to need to do reviews of their well-being objectives and their well-being plans due to the change in statute. And it certainly would seem as though this would provide an opportunity for an important stream of work and focus on fair work and the cross-cutting nature of fair work, and accelerating and driving forward various different fair work agendas and different parts of the fair work objective, through a deputy commissioner role."*¹¹⁷

118. Ategwyd yr alwad hon am greu Dirprwy Gomisiynydd gan NEU Cymru a TUC Cymru.¹¹⁸ Cred TUC Cymru fod hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y darpariaethau'n cael digon o flaenoriaeth ac i gynghori cyrff cyhoeddus ar gyflawni'r nod llesiant diwygiedig.¹¹⁹

119. Er bod y Dirprwy Weinidog yn awyddus i bwysleisio cyrhaeddiad ehangach y darpariaethau gwaith teg yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, roedd yn cydnabod bod materion o ran cymhwysedd wedi arwain at y newid yn ymagwedd Llywodraeth Cymru:

*"...the Bill as presented respects and reflects the limits of the current devolution settlement. So, in relation to replicating the fair work duty, the eagle-eyed amongst you will recall that, in the draft Bill, the definition of 'fair work' was actually left blank and we sought to seek input from consultation respondees and partners as to actually how we could make that work within the constraints that we were operating within. But we think actually that our approach now better reflects our belief that promoting fair work can support the link between individual and collective well-being, it reflects the important role that Welsh public bodies have in leading by example, and it also goes some way, which is important, on the recommendation that was actually made by the Fair Work Commission to incorporate fair work into the Well-being of Future Generations Act. So, that goes back again to aligning that approach, and we think it's more aligned to the thinking of the standalone duty that's already proposed in the Bill."*¹²⁰

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 301 a 302 – 11 Gorffennaf 2022

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NEU Cymru; TUC Cymru

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 122 – 20 Mehefin 2022

120. O ran Dirprwy Gomisiynydd Gwaith Teg, amlinellodd y Dirprwy Weinidog y risg y gallai creu sefyllfa annibynnol gael effaith groes i'r bwriad, o ran creu dull seilo, pan mai'r bwriad yw integreiddio gwaith teg ar draws yr hyn a wneir a'r ymagwedd gyffredinol tuag at les.¹²¹

Safbwynt y Pwyllgor

Darpariaethau gwaith teg

Rydym yn deall rhwystredigaeth rhai ynghylch gwanhau'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwaith teg rhwng y Bil nawr a'r Bil ar ffurf drafft, ond mae angen i'r Bil fod o fewn cymhwysedd y Senedd. At hynny, nodwn fod gan y dull gweithredu terfynol o'i gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ystyried gwaith teg wrth fynd ati i gyflawni nod llesiant gyrhaeddiad llawer ehangach na'r darpariaethau gwreiddiol. Fodd bynnag, os yw'r dull ehangach hwn am lwyddo, bydd angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â chanfyddiadau Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mai dim ond dau gorff a gynhwysodd gyfeiriadau at agweddau ar waith teg/addas yn y gwerthusiad cyntaf o nodau llesiant. Dylai'r cam gweithredu hwn gynnwys llunio canllawiau i gefnogi cyrff cyhoeddus i ymgorffori gwaith teg yn eu nodau llesiant a chynnwys gosod disgwyliadau clir i gyrff cyhoeddus o'r angen i wella'r nifer sy'n pennu nodau teg sy'n ymwneud â gwaith.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau i gefnogi cyrff cyhoeddus i ymgorffori gwaith teg yn eu nodau llesiant, a dylai nodi sut y mae'n disgwyl i'r canllawiau hyn wella nifer y cyrff cyhoeddus sy'n pennu nodau llesiant teg sy'n gysylltiedig â gwaith yn y dyfodol. Dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

Clywsom alwadau am greu Dirprwy Gomisiynydd gyda chyfrifoldeb dros 'Gwaith Teg' o fewn swyddfa bresennol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. O ystyried yr angen i sicrhau bod gwaith teg yn cael ei flaenoriaethu o fewn y nodau llesiant, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddigon o gyllid ac adnoddau cynaliadwy i roi'r flaenoriaeth sydd ei hangen ar waith teg, fel y rhagwelwyd gan gynigion y Bil.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddigon o gyllid ac adnoddau cynaliadwy i roi'r flaenoriaeth sydd ei hangen ar waith teg, fel y rhagwelwyd gan y Bil. Os canfyddir bylchau yng ngallu Swyddfa'r Comisiynydd i wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddyrannu adnoddau ychwanegol i alluogi

¹²¹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 135** – 3 Hydref 2022

mynd i'r afael â'r rhain. Dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn cynnal trafodion Cyfnod 3 a dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â hynny.

6. Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Mae meithrin pŵer caffael yn y sector cyhoeddus i sicrhau buddion cymdeithasol ehangach wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers blynyddoedd lawer. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y Bil hwn yn galluogi cymryd “camau breision” yn y maes hwn.

Y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

121. Mae adran 24 yn nodi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau contractio (h.y. y rhai a restrir yn Atodlen 1 i'r Bil) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol.

122. Mae'r adran yn cyflwyno categori o gaffael cyhoeddus mewn cysylltiad â “c[h]ontractau rhagnodedig”, sy'n perthyn i dri chategori:

- Contractau adeiladu mawr (a ddiffinnir yn adran 25);
- Contractau allanoli gwasanaethau (a ddiffinnir yn adran 26);
- Unrhyw gontract cyhoeddus arall a ddisgrifir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

123. Nododd nifer o sefydliadau eu cefnogaeth i'r rhan hon o'r Bil, gan gynnwys Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru, Colegau Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth, NEU Cymru, a'r Sefydliad Materion Cymreig.¹²²

124. Tynnodd Geraint Thomas o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru sylw at fanteision posibl y ddeddfwriaeth, yn enwedig y ddyletswydd caffael, o ran sicrhau lefelau uwch o gysondeb ar draws y sector cyhoeddu:

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru, [Colegau Cymru](#), [TUC Cymru](#), [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#), [Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd](#), [Morwrol a Thrafnidiaeth](#), [NEU Cymru](#) a'r [Sefydliad Materion Cymreig](#)

*"The real benefit for me, in terms of the legislation, is that we can use it, or certainly the procurement professionals within services can use it, to ensure that we do it in the proper manner and things are done correctly and within the legal frameworks, because, with the best will in the world, if you allow staff, not just in the fire sector but probably in all the public sector—if they were given the freedom, they'd just go out and buy what they want through the least path of resistance. They wouldn't follow the procurement procedures. They would just get it the easiest route they could possibly get it, not necessarily look for the cheapest, but the easiest route to get what they want. Having this legislation only adds to what we're already trying to achieve, and it will give us the right outcomes."*¹²³

125. Galwodd Community Leisure UK am symud oddi wrth gaffael sy'n cael ei ysgogi gan broses i gaffael sy'n cael ei ysgogi gan bwrpas. Disgrifiodd Kate Cummings y Bil yn symud i'r cyfeiriad cywir yn ei bwyslais ar bwysigrwydd gwerth cymdeithasol.¹²⁴

126. Dywedodd Tomorrow's Company na all materion fel gwerth cymdeithasol a chyfrifoldeb cymdeithasol byth gael eu hasesu yn ôl niferoedd yn unig. Ychwanegodd fod elfen ansoddol gref, gan bwysleisio'r angen i sefydliad gael diwylliant priodol.¹²⁵

Caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

127. Galwodd nifer o sefydliadau ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol i gynnwys caffael sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mewn tystiolaeth ar y cyd, gwnaeth Maint Cymru, Cytûn, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Cymru Masnach Deg a WWF Cymru nifer o argymhellion, gan gynnwys ynghylch yr angen i'r Bil ystyried cyfrifoldeb byd-eang; hyfforddiant i swyddogion caffael ar effeithiau caffael byd-eang; ac o ran targedau allyriadau carbon a mesurau i fynd i'r afael â datgoedwigo tramor.¹²⁶

128. Roeddent yn bryderus iawn ynghylch geiriad adran 24. Roeddent o'r farn ei fod yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bod perygl y gallai'r diffiniad o lesiant fel un sy'n cyfeirio at 'yr ardal leol' yn unig ddod i ddisodli'r diffiniad byd-eang llawer llawnach.

¹²³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 378](#) – 27 Mehefin 2022

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 200](#) – 11 Gorffennaf 2022

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Tomorrow's Company](#)

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Maint Cymru, Cytûn, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Cymru Masnach Deg, WWF Cymru](#)

Yn eu barn hwy, dylid mynd i'r afael â hyn drwy ddiwygio adran 24 o'r Bil i groesgyfeirio at y dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.¹²⁷

129. Mewn perthynas â chyfrifoldeb byd-eang, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym fod y ddeddfwriaeth yn cysylltu caffael cymdeithasol gyfrifol yn uniongyrchol â'r nodau llesiant, sy'n cynnwys cyfrifoldeb byd-eang ac y bydd y cyswllt hwn yn cael ei egluro yn y canllawiau statudol.¹²⁸ Ailadroddodd y pwynt hwn yn ystod ein hail sesiwn dystiolaeth.¹²⁹

Cwmpas y ddyletswydd caffael

130. Roedd TUC Cymru, undebau llafur eraill, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a Sefydliad Bevan yn galw am ehangu'r rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol.¹³⁰

131. Roedd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru o'r farn y dylai sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y ddyletswydd hon a'r gofynion caffael yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Tynnodd sylw hefyd at ddyletswydd caffael Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gan nodi nad yw'r Bil na'r ddogfennaeth ategol yn cyfeirio at y Ddyletswydd ar hyn o bryd:

*"It is important for us as the regulator of the PSED and listed public bodies who are subject to the PSED, to understand how the socially responsible public procurement duty and PSED procurement regulation interrelate. We recommend that this point is explicitly referenced within the explanatory memorandum to provide clarity."*¹³¹

132. Roedd TUC Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o eglurder ynghylch a ellid cynnwys sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o fewn cwmpas y ddyletswydd.¹³²

133. Fodd bynnag, gofynnodd Archwilio Cymru a oes angen i bob corff a fydd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol gael eu cynnwys, gan fod llawer o'r

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Maint Cymru](#), [Cytûn](#), [Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru](#), [Cymru Masnach Deg](#), [WWF Cymru](#)

¹²⁸ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) – 22 Gorffennaf 2022](#)

¹²⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 166](#) – 3 Hydref 2022

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TUC Cymru](#); [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#)

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru](#)

¹³² Tystiolaeth ysgrifenedig, [TUC Cymru](#)

cyrff ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon yn gwario swm cymharol fach ar gaffael, a gallai'r ddyletswydd effeithio'n anghymesur arnynt.¹³³

134. Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym fod peidio â chynnwys sefydliadau addysg uwch o fewn cwmplas y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn mynd i'r afael â materion o bwys a fyddai wedi codi o dan y cynigion yn y Bil drafft.¹³⁴ Mae eu hymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Bil drafft yn disgrifio'r pryderon hyn yn fanwl:

*"In relation to universities, some of the proposals may need further investigation to ensure there are no unintended conflicts with charity status or charity law obligations. As the Charity Commission makes clear, a charity must exclusively pursue its charitable purposes, and not the policies or directions of a governmental authority. Placing a direct requirement on universities to pursue the Welsh Government's well-being or fair work objectives in relation to prescribed contracts as proposed, and the proposed power of the Ministers to require universities to implement works clauses if they disagree with a university's decision not to include them in a major construction contract, would both appear to cause potential problems for universities in meeting their charitable obligations or maintaining their charitable status, and status for purposes of national accounting. Placing a direct requirement on universities in relation the WBFGA 2015 has previously been avoided for this reason. As the draft Bill stands, we think these provisions may need to be redrafted or universities exempted from their direct application to avoid serious adverse consequences."*¹³⁵

135. Fel y soniwyd yn y bennod flaenorol, yn ôl y Dirprwy Weinidog roedd y ffordd y diffinnir y sefydliadau hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu cwmplas o fewn y ddeddfwriaeth.¹³⁶

136. Nododd un o'r swyddogion a oedd yn cefnogi'r Dirprwy Weinidog hefyd fod sefydliadau addysg uwch wedi mynegi diddordeb yn y dull caffael a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru:

"In recent meetings with HE colleagues around procurement, they've expressed quite a lot of interest in what we're doing. They're actually coming along to some of the workshops, where we're thinking about the foundation of statutory guidance, and really participating, just the same way as any

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Archwilio Cymru](#)

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Prifysgolion Cymru](#)

¹³⁵ Prifysgolion Cymru, [Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Bil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\)](#)

¹³⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 50](#) – 20 Mehefin 2022

other public body, with a view to participating using the same guidance and doing the same things if and when the Bill becomes law. So, just to reassure this committee that not being listed within the procurement duties doesn't mean that the sector is not interested in the issues that are raised. And, in fact, in some areas, HE in particular I think, has really led the way in the past, and I believe that they would still want to continue to do so."¹³⁷

Mesur effaith y ddyletswydd

137. Roedd y ddyletswyddau caffael o ddiddordeb arbennig i sefydliadau busnes. Disgrifiodd Richard Selby o Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru gaffael fel un o'r ysgogiadau mwyaf sydd gennym i wneud newid enfawr ym mywydau pobl.¹³⁸

138. Galwodd Siambrau Cymru ar Lywodraeth Cymru i osod targedau ar gyfer ei hun a chyrrff cyhoeddus i gynyddu canran y cyllid caffael a gaiff ei wario gyda busnesau yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf a nododd y cyfarwyddwr hyn fel dangosydd allweddol ar gyfer mesur effaith y Bil.¹³⁹

139. Roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn cefnogi'r ddyletswydd, a chred y dylai'r strategaeth a'r broses weithredu gael eu llywio gan egwyddorion sy'n ystyriol o fusnesau bach. At hynny, galwodd am ganllawiau effeithiol ar gyfer busnesau bach a chanolig; i Lywodraeth Cymru feithrin cystadleurwydd cwmnïau fel eu bod mewn sefyllfa well i gynnig am contractau, ac o ran y gofynion gwaith teg, deall bod busnesau ar wahanol gamau o ran eu gallu i wireddu'r rhain. Mae Siambrau Cymru hefyd wedi galw am ganllawiau i fusnesau bach a chanolig a mwy o ddiogelwch i fusnesau bach rhag mesurau a fyddai'n eu rhoi o dan anfantais o gymharu â chwmnïau mwy drwy ychwanegu cymal atodol at y Bil.¹⁴⁰

140. Nododd Cwmpas fod angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu mentrau cymdeithasol fel y gallant gynnig am contractau, a byddai'n croesawu gosod targedau ar gyfer canran y contractau a ddyfernir i fentrau cymdeithasol.¹⁴¹

141. Amlygodd tystiolaeth yr Open Rights Group rôl bosibl meddalwedd ffynhonnell agored mewn caffael cymdeithasol gyfrifol a mynegwyd siom nad yw hyn yn rhan o'r Bil.¹⁴²

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 115](#) – 3 Hydref 2022

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, [paragraff 111](#) – 27 Mehefin 2022

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig; Cofnod y Trafodion, [paragraff 163](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Siambrau Cymru: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru](#)

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cwmpas](#)

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, [Open Rights Group](#)

142. Roedd y Dirprwy Weinidog yn amharod i ymrwymo i dargedau caffael gan nodi anawsterau'n ymwneud ag ansawdd a lefel y data. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â diffygion o ran casglu a dadansoddi data.¹⁴³

143. Mae adran 40 y Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut y dylai awdurdodau contractio reoli, cynnal a chyhoeddi cofrestr contractau, gan gynnwys y wybodaeth a'r data y mae'n rhaid eu casglu. Gofynnwyd a ellid diwygio'r darpariaethau hyn i gynnwys gwybodaeth am leoliad contractau a'u defnyddio i fesur perfformiad. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog gan ddweud y byddai mesurau adrodd y Bil yn allweddol ac yn rhoi darlun llawer cliriach i Lywodraeth Cymru o'r hyn sy'n digwydd ac i ba raddau y mae'r dyletswyddau'n gwneud gwahaniaeth.¹⁴⁴

Rheoli contractau

144. Mae adrannau 27 i 31 yn ymwneud â chymalau gwaith cyhoeddus cymdeithasol mewn contractau adeiladu mawr. Maent yn cynnwys gofynion i Weinidogion Cymru gyhoeddi cymalau enghreifftiol ar gyfer contractau adeiladu mawr (adrannau 27 a 28) sydd wedi'u llunio i sicrhau gwelliannau i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Maent hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau contractio i gymryd camau i sicrhau bod rhwymedigaethau'n cael eu cyflawni.

145. Nododd y dystiolaeth fod rheoli contractau yn faes lle gellid gwella perfformiad. Dywedodd Liz Lucas o Gyngor Caerffili wrthym nad yw rheoli contractau yn rhywbeth sy'n cael ei wneud yn dda ledled Cymru.¹⁴⁵

146. Mynegodd Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru ei chefnogaeth i gyflwyno'r ddyletswydd rheoli adeiladu, ac mae wedi annog datblygiad y ddyletswydd hon yn frwd. Dywedodd fod cyflenwyr y sector preifat yn gyfarwydd â threfn lle nad oes fawr ddim gwaith craffu, os o gwbl, ar ôl dyfarnu contractau o ran y canlyniadau cymdeithasol gyfrifol, a heb y darpariaethau hyn, byddai cyflenwyr yn llai tebygol o sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Cred fod angen i gyrff cyhoeddus weithio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector i sicrhau canlyniadau gwell, ac awgrymodd y dylai gyrff cyhoeddus gyhoeddi blaenraglenni gwaith ar gyfer cyfnod o 12 mis i alluogi cyflenwyr i gynllunio ar gyfer cyfleoedd busnes, cynllunio i sicrhau canlyniadau cymdeithasol gyfrifol a sefydlu cynigion ar gyfer cyflawni'r canlyniadau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy.¹⁴⁶

¹⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 151 – 3 Hydref 2022

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 130 – 133 – 20 Mehefin 2022

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 74 – 11 Gorffennaf 2022

¹⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru

147. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod y rhwymedigaethau a wneir gan gyflenwyr mwy yn aml yn cael eu bodloni drwy basio baich ymhellach i lawr y cadwyni cyflenwi i is-gontractwyr, a dylid ystyried hyn ymhellach wrth ddatblygu cynigion. Mae'n credu na ddylai dyletswyddau a gofynion fynd ar goll wrth fynd i lawr y gadwyn gyflenwi, ac y dylai'r gofynion a drosglwyddir i is-gontractwyr fod yn gymesur, hyrwyddo dilyniant a pheidio ag effeithio'n andwyol ar gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig.¹⁴⁷

148. Soniodd yr arbenigwr caffael Liz Lucas hefyd am y driniaeth wael o fusnesau bach a chanolig ac is-gontractwyr gan amlygu'r ffordd y mae risg weithiau'n cael ei drosglwyddo i lawr y gadwyn gyflenwi:

*"That is a fundamental issue in construction that we need to tackle. I still don't understand with the Bill how we tackle that and make sure that the subcontractors who do the work get paid for the work they do. They very much deliver the social value on the ground, not the main contractor, in many cases. I think we've got to be fair to them; we can't keep pushing the risk and all the issues down the supply chain to the local SMEs. I think we've got to change that somehow. So, there's a culture on both sides of the fence."*¹⁴⁸

149. Dywedodd Ed Evans o Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru mewn ymateb mai'r ateb yw newid y diwylliant a'r arferion drwy ddod â'r perfformwyr gwael i fyny i safonau'r goreuon:

*"The legislation can do so much, but if you start to dictate exactly what risks get passed down and which ones don't—that's not a legislative issue for me; that's more an issue of behaviours, culture, good practice, and we have plenty of that, to be honest with you, across the construction industry. What the Bill will do, I think, is push clients to consider that more. It is far too easy to push that risk down the line, because then you push accountability down the line."*¹⁴⁹

¹⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion, **paragraff 51** – 11 Gorffennaf 2022

¹⁴⁹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 59** – 11 Gorffennaf 2022

Dyletswyddau ychwanegol

150. Dywedodd Sue Hill o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y dylai Gweinidogion ganiatáu amser i fesur gweithrediad y Bil cyn ystyried defnyddio ei bwerau o dan adran 24(8) i greu dyletswyddau rheoli contractau ychwanegol.¹⁵⁰

151. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y dull o gynnwys unrhyw ddyletswyddau ychwanegol:

*"Gwnaethom gynnwys dyletswyddau rheoli contractau ar gyfer prosiectau adeiladu mawr am fod adeiladu yn cyfrif am oddeutu traean o gyfanswm gwariant caffael cyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac am ein bod yn gwybod bod ganddo gadwyni cyflenwi cymhleth lle mae risg sylweddol a chyfleoedd posibl mewn perthynas â chyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Byddwn yn dysgu o'r ddyletswydd rheoli contractau, ond nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i'w hymestyn i sectorau penodol eraill."*¹⁵¹

Strategaethau caffael

152. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio baratoi a chyhoeddi strategaeth gaffael. Croesawodd Amnest Rhyngwladol y darpariaethau, fodd bynnag, roedd yn siomedig nad oedd hyn yn cynnwys cyfeiriad at rôl caffael wrth gefnogi hawliau dynol.¹⁵²

153. Dywedodd y Sefydliad Adeiladu Siartredig y gallai'r strategaethau fod yn ysgogwr allweddol buddion cymdeithasol os cânt eu rhannu yn becynnau llai, mwy hylaw a fforddiadwy gan y bydd hyn yn dileu rhwystrau i fusnesau bach a chanolig.¹⁵³

154. Dywedodd Cwmpas wrthym y bydd yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chyrff cyhoeddus ar y strategaethau caffael a galwodd am osod targed penodol ar gyfer canran y mentrau cymdeithasol sy'n ennill y contractau hyn.¹⁵⁴

Allanoli

155. Mae adrannau 32 i 37 yn ymwneud â'r cymalau gweithluoedd cyhoeddus cymdeithasol a'r cod ymarfer ar allanoli gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys trefniadau hysbysu ac adrodd.

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 277 – 27 Mehefin 2022

¹⁵¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – 22 Gorffennaf 2022

¹⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, Amnest Rhyngwladol

¹⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Adeiladu Siartredig

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cwmpas

156. Dywedodd Chwarae Teg wrthym fod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu yn cynnig cyfle i roi gofynion ar waith ynghylch telerau ac amodau cyflogaeth safonol i amddiffyn gweithwyr gofal cymdeithasol yn well, a sicrhau nad yw cwmnïau sy'n cynnig gwaith teg yn cael eu tanseilio gan gwmnïau mwy yn y sector preifat.¹⁵⁵

157. Galwodd Comisiynydd y Gymraeg ar Lywodraeth Cymru i gynnwys darpariaethau ynghylch "yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a phob dyletswydd yn codi o Safonau Gweithredu" yn y cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu.¹⁵⁶

Safbwynt y Pwyllgor

Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol

Nodwn fod llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn cefnogi'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol gyda'i phwyslais ar set ehangach o werthoedd. Mae'r ddyletswydd yn adeiladu ar flynyddoedd lawer o bolisi a gweithgarwch a gynlluniwyd i harneisio gwariant caffael cyhoeddus i sicrhau buddion cymdeithasol ehangach.

Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth yn gwbl gefnogol ac roedd pryderon pwysig yn ymwneud ag anghysondeb yng ngeiriad y Bil a geiriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Tra bod Deddf 2015 yn cyfeirio at y "terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang", roedd pryderon nad yw adran 24(1) y Bil ond yn cyfeirio at yr angen i "wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal". Ceisiodd y Dirprwy Weinidog roi sicrwydd ar y mater hwn gan ddweud wrthym fod y ddyletswydd wedi'i chysylltu'n glir â'r nodau llesiant sy'n cynnwys cyfrifoldeb byd-eang, ac y bydd hyn yn cael ei wneud yn glir mewn canllawiau statudol. O ystyried nifer y sefydliadau sy'n gweithio yn y sector a fynegodd bryderon ynghylch y mater hwn, hoffem i Lywodraeth Cymru fynd ymhellach ac ystyried cyflwyno gwelliannau i adran 24(1) o'r Bil fel ei bod yn ystyried yn ddigonol y cyfrifoldebau byd-eang sydd gan gyrff cyhoeddus, yn ogystal â rhai i'w hardal leol.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau i adran 24(1) o'r Bil fel ei bod yn ystyried yn ddigonol y cyfrifoldebau byd-eang sydd gan gyrff cyhoeddus yn ogystal â'r rheini i'w hardal leol.

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd y Gymraeg

Cwmpas y ddyletswydd

Yn yr un modd â dyletswyddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, clywsom alwadau i ehangu'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol i gynnwys cyrff cyhoeddus eraill megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch (er i Archwilio Cymru gwestiynu'n benodol a ddylid cwtogi ar y cwmpas yn yr achos hwn). Nodwn fod cwmpas y ddyletswydd hon yn ehangach na'r hyn a gynigir ar gyfer y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, ac er bod y materion a godwyd uchod yn berthnasol i statws cyfrifyddu'r cyrff hyn, ni fyddai angen diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 oherwydd gellir gwneud unrhyw newidiadau drwy ddiwygio Atodlen 1 i'r Bil.

Rydym hefyd yn deall y pryderon a fynegwyd gan Brifysgolion Cymru yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, ac yn amlwg ni fyddem am weld unrhyw effeithiau negyddol ar statws elusennol sefydliadau na'u statws fel sefydliadau di-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd. Fodd bynnag, nodwn nad yw Llywodraeth Cymru wedi siarad â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddeall a fyddai cynnwys y cyrff hyn fel awdurdodau contractio o dan Atodlen 1 yn effeithio ar eu statws cyfrifyddu. O ystyried y rhoddwyd rhesymau tebyg dros eithrio Sefydliadau Addysg Uwch o gwmpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae angen i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gynnal trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y mater hwn er mwyn i'r cyrff hyn, a'r Senedd, gael eglurder ynghylch pa gyrff all fod yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth hon.

Mewn egwyddor, credwn y dylai fod yn ofynnol i gyrff fel Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cael symiau sylweddol o arian cyhoeddus ddilyn deddfwriaeth caffael Llywodraeth Cymru yn yr un modd ag y mae awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, os oes anawsterau ymarferol sylweddol yn atal hyn, ni fyddem am weld effaith negyddol ar y cyrff hyn.

Rydym yn ymwybodol bod Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a chredwn fod cyfle am gysondeb o ran cynnwys y sefydliadau hyn hefyd fel awdurdodau contractio yn Atodlen 1 i'r Bil.

Felly, o ystyried y farn a fynegwyd gan randdeiliaid y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol, hoffem i Lywodraeth Cymru drafod effeithiau posibl hyn ar statws cyfrifyddu a statws elusennol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Comisiwn Elusennau yn y drefn honno, gyda'r bwriad o'u cynnwys o fewn cwmpas y Bil.

Bydd y ddyletswydd newydd yn eistedd ochr yn ochr â dyletswyddau eraill, yn arbennig rheoliad caffael Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel y rheoleiddiwr yn awgrymu nad yw'n glir sut y bydd y dyletswyddau hyn yn cyd-fynd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro hyn fel bod y rheoleiddiwr a'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddwy ddyletswydd yn deall sut y bydd y dyletswyddau'n gweithio gyda'i gilydd.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Comisiwn Elusennau i benderfynu a fyddai gwneud Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn effeithio'n negyddol ar eu statws cyfrifyddu cenedlaethol a/neu eu statws elusennol. Os na fydd unrhyw effaith ar y rhain, dylai ychwanegu'r cyrff hyn at y rhestr o awdurdodau contractio sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n cynnig bod rheoliad caffael Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn alinio, a sut y mae'n bwriadu sicrhau bod cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddwy ddyletswydd yn deall sut y bydd y dyletswyddau'n gweithio gyda'i gilydd.

Effaith y ddyletswydd

Er mwyn sicrhau bod nodau'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn cael eu gwireddu, awgrymodd rhai y dylai'r Bil gynnwys mesurau a thargedau ar gyfran y caffael cyhoeddus sydd naill ai'n cael ei gwario yng Nghymru neu'n cael ei gwario gyda mathau penodol o gyflenwyr megis busnesau bach a chanolig neu fentrau cymdeithasol. Fodd bynnag, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at anawsterau o ran casglu a dadansoddi data a fyddai'n ei gwneud yn heriol cytuno ar dargedau ystyrlon yn y byrdymor, er ein bod yn falch o nodi bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â hyn yn y tymor canolig.

Rydym yn cytuno y dylid diwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targedau caffael o fewn blwyddyn i roi'r Ddeddf ar waith. Byddai'r dull hwn yn caniatáu amser i'r gwaith manwl ar fonitro a chasglu data ddigwydd cyn gosod targedau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a oes angen gwneud unrhyw welliannau i'r wybodaeth gofrestradwy y mae'n ofynnol i awdurdodau contractio ei chadw o dan adran 40(3) y Bil er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu a monitro data sydd ei angen i osod y targedau hyn.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy'n gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer cyfran y caffael sy'n cael ei gwario yng Nghymru ac sy'n cael ei gwario gyda mathau penodol o gyflenwyr megis busnesau bach a chanolig neu fentrau cymdeithasol. Er y bydd angen amser i weithio allan yr union fecanweithiau ar gyfer casglu a monitro data, dylid eu gosod o fewn blwyddyn i'r Ddeddf ddod i rym a dim hwyrach na thair blynedd ar ôl iddi ddod i rym.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau ar Gyfnod 2 i ddiwygio adran 40(3) y Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gynnwys cyfeiriad y contractwr ar y gofrestr ar gyfer pob contract ac unrhyw wybodaeth arall ofynnol i hwyluso'r gwaith monitro a chasglu data sydd ei angen ar gyfer gosod targedau caffael.

7. Gweithredu'r agweddau caffael

Er mwyn gwireddu uchelgeisiau'r Bil ar gyfer caffael cymdeithasol gyfrifol, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus, diwydiant ac eraill i feithrin capasiti, gallu a newid diwylliannol.

158. Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth yn tynnu sylw at yr heriau ariannol ac o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â gweithredu agweddau caffael y Bil. Er enghraifft, mae Jon Rae o CLILC yn nodi'r materion hyn:

*"Just thinking about some of the procurement issues—procurement teams. There's a real issue with capacity, I think, in local government at the minute. In these corporate support-type functions, these are the functions that bore the brunt during austerity, in terms of cuts. There's a real issue with capacity there. But they need to understand what it is that they'll be required to do in the future."*¹⁵⁷

159. Nododd Shân Morris o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod llawer o gyrff cyhoeddus yn wynebu anawsterau wrth recriwtio staff caffael, a nododd fod rheolwyr caffael yn brin iawn, sy'n arwain at anghysondeb ar draws cyrff cyhoeddus megis y gwasanaethau tân ac achub.¹⁵⁸

160. Dywedodd Liz Lucas o Gyngor Caerffili wrthym nad oedd angen i bob un o'r 22 awdurdod lleol fod ag arbenigedd ym mhob categori o wariant ac y byddai angen iddynt gydweithio:

*"We need more collaboration, we need more acceptance that there are experts in some local authorities or some public sectors, and allow them to do it, otherwise, we will never, ever meet the obligations of this Bill and be able to deliver on the ground, because there just are not enough of us."*¹⁵⁹

161. Roedd cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i godi perfformiad y rhai sy'n perfformio waethaf rhwng nawr a gweithredu'r Bil yn cael ei ystyried yn allweddol gydag Ed

¹⁵⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 336](#) – 11 Gorffennaf 2022

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion, [paragraff 376](#) – 27 Mehefin 2022

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 41 a 42](#) – 11 Gorffennaf 2022

Evans a Liz Lucas yn tynnu sylw at wahaniaethau yn lefelau perfformiad ac arbenigedd awdurdodau lleol Cymru a'r angen am newid diwylliannol.¹⁶⁰

162. Dywedodd Cyngor Sir Ddinbych y bydd angen i gyrff cyhoeddus, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gefnogi a gweithredu cadwyni cyflenwi lleol i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion y Bil, unwaith y byddant ar statud. Yn ôl Sir Ddinbych byddai hyn yn gofyn am ymdrech wedi'i chydgysylltu a'i thargedu gan bob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru. Bydd cadwyni cyflenwi lleol, yn enwedig busnesau llai, angen meithrin capasiti mewn rhyw ffordd i ddeall gwerth cymdeithasol yn llawn, yn enwedig o fewn tendrau lle bydd angen gwerthuso'r ymateb gwerth cymdeithasol.¹⁶¹

163. Tynnodd y Sefydliad Adeiladu Siartredig sylw at fecanweithiau presennol (ar ffurf pecynnau cymorth) a ddefnyddiodd eu diwydiant i ddeall yn well beth mae gwerth cymdeithasol yn ei olygu mewn prosiectau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Roedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar y mecanweithiau presennol a arweinir gan y diwydiant sydd ar waith i gryfhau bwriadau'r Bil ymhellach a gweld y canlyniadau a nodir yn y broses gaffael yn cael eu cyflawni.¹⁶²

164. Yn yr un modd, roedd tystiolaeth y Sefydliad Safonau Prydeinig yn amlinellu sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio safonau i gefnogi nodau'r Bil a rhoddodd enghreifftiau ymarferol o'r ffordd y cyflawnwyd cynnydd sylweddol o ran defnyddio safonau wrth wella effeithlonrwydd chaffael cyhoeddus. Roedd yn amlinellu rôl y Safon Caffael Cyhoeddus sy'n darparu:

*"criteria and guidance that enable potential suppliers to demonstrate their generic trustworthiness, transparency, and ethical practice. At the same time, procuring bodies can use the standard to assess bidders more readily and accurately."*¹⁶³

165. Mewn perthynas ag adnoddau staff, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

"Byddwn yn lleihau anawsterau i'r eithaf ac yn cyflawni cynifer o ganlyniadau cadarnhaol â phosibl os byddwn yn sicrhau y gall y dyletswyddau gael eu cymhwyso'n gymesur, a gaiff ei gefnogi drwy'r canllawiau, ein bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r canllawiau, a'n bod yn sicrhau

¹⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 91, 100, 103 – 11 Gorffennaf 2022; paragraffau 108 - 113 – 11 Gorffennaf 2022

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Ddinbych

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Adeiladu Siartredig

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Sefydliad Safonau Prydeinig; gweler hefyd BS 95009:2019 Procurement to the public sector – generic requirements for organizations providing products and services (Saesneg yn unig)

bod digon o adnoddau ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses weithredu."¹⁶⁴

Canolfan Ragoriaeth Caffael

166. Ar wahân i ddarpariaethau'r Bil ac yn ogystal â chreu is-grŵp caffael y CPG, fel y nodir yn adrannau 9 a 10 o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu Canolfan Ragoriaeth Gaffael. Daw penderfyniad Llywodraeth Cymru yn sgil argymhellion gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a phanel o arbenigwyr ar y rôl y gallai Canolfan Ragoriaeth ei chwarae wrth ddatblygu'r economi sylfaenol yng Nghymru.¹⁶⁵

167. Cyfeiriodd Liz Lucas o Gyngor Caerffili at bwysigrwydd y Ganolfan Ragoriaeth Caffael arfaethedig o ran helpu i gyflawni'r dyletswyddau caffael a rheoli contractau cymdeithasol gyfrifol.

168. Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrthym ei bod yn aneglur sut y bydd y Ganolfan Ragoriaeth ac is-grŵp caffael y CPG yn cydweithio, gan nodi bod y Comisiynydd wedi cyngori Llywodraeth Cymru i beidio â sefydlu is-grŵp caffael, ond yn hytrach i weithio'n uniongyrchol gyda'r ganolfan ragoriaeth.¹⁶⁶

169. Eglurodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru sut y rhagwelir y byddai'r Ganolfan Ragoriaeth ac is-grŵp caffael y CPG yn cydweithio:

*"there are two very different roles. If we're talking about the procurement sub-group, it's about accountability, it's about challenge, it's about looking at the outcomes. The centre of excellence's main purpose is in support; providing the tools, techniques, advice and support to the public sector. So, they're two quite different roles. Clearly, it would help if they worked well together, and that would be the plan."*¹⁶⁷

Trefniadau adrodd, ymchwiliadau a chydymffurfiaeth

170. Mae adrannau 39 i 42 yn ymdrin â threfniadau adrodd (fel y maent yn ymwneud ag agweddau caffael y Bil).

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – 22 Gorffennaf 2022

¹⁶⁵ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Beth mae Adroddiad yr Adolygiad Caffael yn ei olygu i Gyrff Cyhoeddus a Llywodraeth Cymru

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 345 – 11 Gorffennaf 2022

¹⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 175 – 3 Hydref 2022

171. Croesawodd NEU Cymru y dyletswyddau adrodd, ond cred y dylai mwy o gamau unioni gael eu hymgorffori yn y nodau caffael cyhoeddus yn y Bil, gan nodi bod y sancsiynau ar gyfer diffyg cydymffurfio yn ymddangos yn aneglur, pan ddylent fod yn gwbl dryloyw ac yn ffordd o gymell cydymffurfiaeth.¹⁶⁸

172. Dywedodd Ed Evans o Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru mai un o fanteision y tryloywder yn sgil y gofynion adrodd fyddai'r ffaith eu bod yn codi safonau caffael cyrff cyhoeddus wrth iddi ddod yn gliriach pa awdurdodau sy'n perfformio'n dda, a pha rai nad ydynt yn perfformio cystal. Roedd Liz Lucas o Gyngor Caerffili yn cefnogi hyn, gan nodi y byddai'n codi proffil caffael ac yn creu her cyn gorfod wynebu unrhyw heriau difrifol eraill gan gyrff eraill.¹⁶⁹

173. Ar y llaw arall, mynegodd Archwilio Cymru bryderon gan ddadlau bod y gofyniad i grynhoi'r caffaeliad y mae corff cyhoeddus yn disgwyl ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf yn "feichus", a chyda manteision aneglur. Dywedodd hefyd nad yw'r geiriad a ddefnyddir mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer llunio adroddiadau yn glir, ac y gallai "arwain at ddiffyg ffocws".¹⁷⁰

174. O ran dyletswyddau adrodd, cred Colegau Cymru y dylid ceisio creu cyn lleied o faich â phosibl, a dylai'r dyletswyddau hyn fod yn destun adborth ac adolygiadau blynyddol am y tair blynedd gyntaf ar ôl eu cyflwyno i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cyflawni'r nodau arfaethedig.¹⁷¹

175. Mynegodd CLILC fod ganddi rywfaint o "bryder ynglŷn â'r baich ar awdurdodau lleol a'r goblygiadau o ran adnoddau wrth fodloni'r gofynion adrodd". O ran yr adroddiadau eithrio sy'n ofynnol os na ddefnyddir cymalau enghreifftiol ar gyfer gwaith adeiladu neu allanoli dyletswyddau, nododd hefyd y gallent achosi oedi wrth lunio adroddiadau blynyddol.¹⁷²

176. Cred y Dirprwy Weinidog fod y tryloywder yn sgil llunio adroddiadau rheolaidd yn agwedd allweddol ar y rhan hon o'r ddeddfwriaeth a byddai'n ysgogi'r Llywodraeth i wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran y canlyniadau hynny o'r ddeddfwriaeth y mae pawb am eu gweld, boed hynny'n ymwneud â gwaith teg neu gefnogi busnesau bach a chanolig mewn cymunedau lleol.¹⁷³

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, [NEU Cymru](#)

¹⁶⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 117 a 119](#) – 11 Gorffennaf 2022

¹⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Archwilio Cymru](#)

¹⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Colegau Cymru](#)

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

¹⁷³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 12](#) – 20 Mehefin 2022

Pwerau i ymchwilio

177. Mae adran 41 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymchwilio i sut y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael cyhoeddus. Gallai ymchwiliad o'r fath fod mewn perthynas â gwaith caffael penodol neu weithgareddau caffael yn fwy cyffredinol.

178. Soniodd Archwilio Cymru a TUC Cymru am y diffyg eglurder ynghylch sbarduno ymchwiliad caffael gan Lywodraeth Cymru o dan adran 41. Galwodd Archwilio Cymru ar Lywodraeth Cymru i sefydlu meini prawf penodol ar gyfer hyn, gan nodi y dylid diwygio'r Bil i nodi mai "dim ond ar ôl ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol" y dylid cynnal ymchwiliadau o'r fath.¹⁷⁴ Galwodd TUC Cymru hefyd am fwy o eglurder a gofynnodd yn benodol a allai adroddiad gan y CPG neu undeb llafur sbarduno ymchwiliad i gorff cyhoeddus.¹⁷⁵

179. Dywedodd Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad yw'n glir sut y byddai'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliadau caffael yn rhyngweithio â'r pwerau sydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o dan adran 20 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Gofynnodd pam mae angen haen ychwanegol a system newydd yn hytrach nag integreiddio i systemau presennol. Nododd Marie Brousseau-Navarro hefyd fod cwmpas culach i'r pwerau a chwestiynodd pa mor gydgysylltiedig yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru:

*"that brings us back to the question of coherence and how this legislation should be more integrated under the Well-being Act, and use existing mechanisms rather than creating new ones, more narrow and more focused, which might go in a different direction from the overarching Well-being Act."*¹⁷⁶

180. Roedd Liz Lucas, Pennaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn annog y Gweinidogion i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r pwerau a geir o dan adran 41 o'r Bil:

"This element [of the Bill] worries me a little bit, and I've talked about this big stick, because there will be occasions where we will have suppliers who will challenge what we've done, or something will go wrong and there will be some form of legal challenge to what we've done. And I think we've got to be careful with these powers that they don't deter us and make people

¹⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Archwilio Cymru](#)

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TUC Cymru](#)

¹⁷⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 394](#) – 11 Gorffennaf 2022

frightened of actually going about trying to deliver some of this, so I think it's with caution. I don't think it should be a regular occurrence."¹⁷⁷

181. Wrth ymateb i bryderon Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch y rhyngweithio rhwng y pwerau yn y Bil a phwerau presennol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

"The Future Generations Commissioner has review powers rather than investigatory powers, and no powers that are specific to procurement. So, the current commissioner used her review powers to look at procurement, given that it's a function of public bodies captured by the Well-being of Future Generations Act. So, there's no duplication of that function between this Bill and the Well-being of Future Generations Act. A review of procurement was carried out because of the Future Generations Commissioner's view that there are inconsistencies in the way that well-being outcomes are being pursued through procurement and reported by organisations. This Bill doesn't result in any changes to the Future Generations Commissioner's role or powers, but it does mean that there will be, as we've discussed previously, additional oversight of the achievement of the well-being goals through procurement, which will be provided by the Social Partnership Council and also by the procurement sub-group as well."¹⁷⁸

Canllawiau

182. Mae adran 43 o'r Bil yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar weithredu Rhan 3 o'r Bil, a'r pynciau y caiff y canllawiau eu cwmpasu.

183. Cawsom rywfaint o dystiolaeth yn galw am eglurhad o dermau penodol yn y canllawiau. Galwodd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ac Archwilio Cymru, er enghraifft, am i'r canllawiau egluro'r hyn a olygir gan "[b]enderfyniadau o natur strategol" a dywedodd eraill fel Amnest Rhyngwladol a'r Athro Alan Felstead y dylai'r canllawiau ddiffinio cysyniadau fel cyfrifoldeb byd-eang a gwaith teg.¹⁷⁹

184. Galwodd Comisiynydd y Gymraeg am i'r canllawiau a'r ddogfennaeth caffael gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog gan y byddai manteision i hyn o ran uwchsgilio siaradwyr Cymraeg a

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 85 – 11 Gorffennaf 2022

¹⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 190 – 3 Hydref 2022

¹⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Alan Felstead: Amnest Rhyngwladol

byddai'n "cyfrannu at ddatblygu seilwaith caffael mwy cyson, wedi'i safoni, sy'n sicrhau arferion caffael cyhoeddus gwell".¹⁸⁰

185. Galwodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar Lywodraeth Cymru i lunio canllawiau ymarferol i gefnogi awdurdodau contractio yn eu penderfyniadau ynghylch cyfrifoldeb cymdeithasol.¹⁸¹

186. Galwodd Cartrefi Cymunedol Cymru am gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn unrhyw ymgynghoriad ar reoliadau a chanllawiau a ddatblygir.¹⁸²

187. O ran trefniadau ar gyfer gosod canllawiau, pwysleisiodd Archwilio Cymru rôl canllawiau da "yn llwyddiant neu fethiant y ddeddfwriaeth". Dywedodd:

*"[...]y byddai'n fuddiol o ran deddfu cyfrifol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau drafft, ynghyd ag asesiadau annibynnol o'i effeithiolrwydd tebygol, o ran ymgynghori ac ystyriaeth y Senedd. A fyddai'n orau pe bai hyn yn cael ei wneud cyn i'r Bil gael ei gymeradwyo."*¹⁸³

188. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd cyhoeddi canllawiau o dan y Ddeddf (os daw'n gyfraith) yn gyfle i gydgrynhoi, symleiddio a mynd i'r afael â meysydd sy'n gorgyffwrdd yn y canllawiau presennol.¹⁸⁴ Disgrifiodd y Dirprwy Weinidog y canllawiau fel cyfle delfrydol i gynnwys manylion ymarferol, astudiaethau achos, ac enghreifftiau o sut i sicrhau llesiant drwy gaffael ac awgrymodd y gellid eu diweddarau'n rheolaidd.¹⁸⁵ Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fod ymgynghori ac ymgysylltu ar ddatblygu canllawiau ar y gweill.¹⁸⁶

Safbwynt y Pwyllgor

Gweithredu gweledigaeth y Bil ar gyfer caffael

Yn sail i agweddau caffael y Bil hwn mae gweledigaeth o gaffael sy'n rhoi gwerth ar gyfres llawer ehangach o werthoedd na dim ond y gost isaf. Yn amlwg, bydd gwireddu'r weledigaeth hon yn dibynnu i raddau helaeth ar weithrediad effeithiol ar bob cam o'r broses gaffael. Ond mae heriau a allai lesteirio gweithredu, gan gynnwys rheoli contractau mewn modd anghyson,

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Comisiynydd y Gymraeg](#)

¹⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#)

¹⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, [Cartrefi Cymunedol Cymru](#)

¹⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, [Archwilio Cymru](#)

¹⁸⁴ Tudalen 28, [Memorandwm Esboniadol Drafft](#)

¹⁸⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraff 177](#) – 3 Hydref 2022

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 180](#) – 3 Hydref 2022

gwrthwynebiad diwylliannol, a diffyg capasiti ac adnoddau, a bydd angen mynd i'r afael â phob un ohonynt.

O ddydd i ddydd, ymarferwyr caffael sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus fydd yn gyfrifol am gyflawni'r Bil ond clywsom eu bod dan bwysau ac weithiau nad oes ganddynt yr arbenigedd sydd ei angen. Awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â'r heriau hyn i raddau yn sgil mwy o dryloywder ac atebolrwydd wrth godi safonau perfformiad, a dylai darpariaethau'r Bil helpu yn hynny o beth.

Hoffem weld arweiniad cryfach gan Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â chapasiti, gallu a chydweithredu. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i feithrin capasiti a gallu gweithlu caffael y sector cyhoeddus i roi'r dyletswyddau caffael newydd ar waith a dylai ddarparu'r hyfforddiant sydd ei angen i wneud hyn. Dylai hefyd egluro'r rolau y gall cydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus, y Ganolfan Ragoriaeth Caffael arfaethedig, ac is-grŵp caffael y CPG ei chwarae wrth yrru'r agenda hon yn ei blaen.

Argymhelliad 17. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sicrhau bod gan y gweithlu caffael y capasiti a'r gallu i roi dyletswyddau caffael a rheoli contractau newydd y Bil ar waith a darparu'r hyfforddiant sydd ei angen i wneud hyn. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn ei le cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym a dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu'r costau amcangyfrifedig.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu cydweithredu'n effeithiol i feithrin capasiti, gallu ac arbenigedd drwy nodi'r canlynol yn ei hymateb i'r adroddiad hwn:

- eglurhad o'r rolau a'r berthynas rhwng y Ganolfan Ragoriaeth Caffael ac is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
- sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd y Ganolfan Ragoriaeth Caffael ac is-grŵp caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn chwarae rhan wrth yrru'r agenda gydweithredu yn ei blaen.

Gweithio gyda diwydiant

Yn ogystal â gweithio gyda chyrff cyhoeddus, bydd rôl i Lywodraeth Cymru weithio gyda busnesau a chyflenwyr, yn enwedig yn y diwydiant adeiladu. Nodwn fod rhai arferion da eisoes yn bodoli ond bod risgiau'n parhau lle mae rhwymedigaethau caffael cymdeithasol gyfrifol yn cael eu gwrthwyo i lawr y gadwyn gyflenwi i is-gontractwyr. Nid yw'n glir ychwaith sut y bydd y Bil

yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac roedd rhywfaint o'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond drwy newid diwylliannol (yn hytrach na chyfreithiol) y gellid mynd i'r afael â'r mater. Hoffem felly weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrrff y diwydiant a chynrychiolwyr sy'n ymwneud â chaffael adeiladu i ddatblygu canllawiau cadarn ar sut y dylid rhannu rhwymedigaethau a risg caffael cymdeithasol gyfrifol drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan, i fynd i'r afael â materion diwylliannol ac ymddygiadol.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff y diwydiant a chynrychiolwyr sy'n ymwneud â chaffael adeiladu i ddatblygu canllawiau cadarn ar sut y dylid rhannu rhwymedigaethau a risg caffael cymdeithasol gyfrifol drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan, i fynd i'r afael â materion diwylliannol ac ymddygiadol.

Adrodd a chydymffurfio

Gallai gofynion adrodd rhy feichus effeithio ar yr un adnoddau estynedig sy'n gyfrifol am roi'r Bil ar waith, a allai rwystro'r gwaith cyflawni ymhellach. Mae'r Bil yn creu nifer o ofynion adrodd newydd. Nid ydym yn argyhoeddedig bod y rhain, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen i gynyddu tryloywder; sicrhau bod y baich gweinyddol a roddir ar gyrff cyhoeddus cyn lleied â phosibl ac osgoi dyblygu gofynion adrodd o ddyletswyddau eraill. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod gofynion adrodd yn y Bil yn cael eu symleiddio er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr angen i gynyddu tryloywder; sicrhau cyn lleied â phosibl o faich gweinyddol ar gyrff cyhoeddus; ac osgoi dyblygu gofynion adrodd o ddyletswyddau eraill.

Pwerau i ymchwilio

Er bod pwerau'r Bil i ymchwilio i weithgareddau caffael yn agwedd angenrheidiol ar gydymffurfiaeth, rydym yn rhannu pryderon bod angen mwy o eglurder ynghylch y meini prawf ar gyfer arfer y pwerau hyn a'u perthynas â'r pwerau presennol a roddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac eraill. Rydym yn nodi ymhellach sylwadau Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bod y pwerau i ymchwilio yn y Bil hwn nid yn unig yn peri risg o ddyblygu ond eu bod yn gulach o ran eu cwmipas posibl.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd ymchwiliadau caffael Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â'r pwerau presennol sydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a

sut y bydd ei dull gweithredu fel y'i rhagwelir yn y ddeddfwriaeth yn ychwanegu gwerth ac yn osgoi dyblygu.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r meini prawf a fyddai'n sbarduno ymchwiliad o dan adran 41 o'r Bil a'i safbwynt ar yr angen i ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn cychwyn ymchwiliad o'r fath.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 yn nodi manylion am y meini prawf a fyddai'n sbarduno ymchwiliad o dan adran 41 ar wyneb y Bil.

Canllawiau

Mae profiadau blaenorol yn dangos y gall canllawiau clir chwarae rhan ganolog wrth weithredu ac rydym wedi cyfeirio at feysydd, ar sawl pwynt yn yr adroddiad hwn, lle byddem yn croesawu canllawiau ar faterion penodol. Bydd ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb, ynghyd â chyfleoedd i graffu ar y canllawiau a'u herio ar ffurf ddrafft, yn cryfhau ansawdd y canllawiau, ac o ganlyniad, yn cryfhau gweithrediad y Bil. Felly, byddem yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd y canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft, i'w hystyried gan randdeiliaid a'r Senedd, am o leiaf chwe wythnos eistedd (ac eithrio wythnosau pan mae'r Senedd ar doriad).

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad i gyhoeddi'r canllawiau statudol ar ffurf drafft i'w hystyried gan randdeiliaid a'r Senedd gyda chyfnod ymgynghori o chwe wythnos eistedd o leiaf.

8. Goblygiadau ariannol ac ystyriaethau eraill

Goblygiadau ariannol i gyrff cyhoeddus

189. Tynnodd Cyngor Sir Ddinbych a Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y costau ychwanegol sy'n wynebu cyrff cyhoeddus. Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn a fydd unrhyw gymorth ariannol ar gael i gyrff cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddeddfwriaeth. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn a fydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cyfarwyddo cyrff cyhoeddus i roi mentrau newydd ar waith, a nododd, os felly, y bydd angen neilltuo cyllid ychwanegol i gyrff cyhoeddus.¹⁸⁷

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

190. Cododd Archwilio Cymru nifer o faterion yn ymwneud ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil:

- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar p'un a ddylid cynnwys wyth corff cyhoeddus ychwanegol o fewn dyletswydd Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Os gwneir hynny, bydd y cyrff hyn hefyd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol a geir yn y Bil hwn. O ganlyniad, bydd y costau i gyrff cyhoeddus hefyd yn cynyddu.
- Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eithaf tebygol o greu costau ychwanegol ar gyfer swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Nid yw'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith yn cynnwys y rhai a fyddai'n cael eu hysgwyddo gan y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol.¹⁸⁸

191. Tynnodd Marie Brousseau-Navarro, Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sylw at y profiad o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y caiff costau eu tanamcangyfrif yn aml:

"[...]based on our experience, we know that cultural change and the cost implications of it are sometimes underestimated and that that's very often the case. When I was looking at the regulatory impact assessment here, I saw things like it assumes initial familiarisation activities of three hours of an

¹⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru.

¹⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilio Cymru.

*officer's time for one person in each of the 44 public bodies. So, I'm really hoping the Finance Committee will look into that a bit more. And, again, we know from experience that it is really important to spend time working with the people who are on the receiving end of new duties, so that they can understand how it works with the million things they already have to do, and make sure it's efficient and doesn't contradict any of the things they have to do in the new legislation as well as the other legislation."*¹⁸⁹

Amser cyfleuster

192. Mae undebau llafur wedi codi materion yn ymwneud â'r amser cyfleuster ychwanegol sydd ei angen i gyflawni rhwymedigaethau mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol. Mae TUC Cymru a NEU Cymru ill dau wedi nodi na ellir disgwyl, o dan unrhyw amgylchiadau, i undebau ddefnyddio eu hamser cyfleuster presennol i ymgymryd â'r gwaith hwn, oni chytunnir ar hynny ar lefel leol.¹⁹⁰ Dywedodd TUC Cymru hefyd y bydd angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r ddyletswydd er mwyn i'r holl bartneriaid cymdeithasol ei gweithredu. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto faint o adnoddau y bydd eu hangen gan nad yw'r partneriaid cymdeithasol yn gwybod digon am sut y bydd angen iddynt ymgysylltu'n effeithiol i sicrhau bod y ddyletswydd yn gweithio.¹⁹¹

193. Cred Bethan Thomas o Unsain y byddai mwy o amser cyfleuster o fudd i gyflogwyr:

*"We will need to see an increase in facility time for us to fully engage and co-operate in terms of implementing the legislation. What I would say about that is that I think that you can't underestimate the value of that facility time in terms of it will be a short, initial burst of facility time and resource that will be needed, but the longer term benefits and impact of co-creation of ideas and solutions to challenges can't be underestimated.[...] The engagement of trade unions in these matters has been well recognised as being beneficial to workforces, to workplaces, to employers and culturally, and there's evidence in TUC papers that can seek to put a value on the positive engagement of trade unions with their employers."*¹⁹²

¹⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 334 – 11 Gorffennaf 2022

¹⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru; NEU Cymru

¹⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TUC Cymru

¹⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 203 – 4 Gorffennaf 2022

194. Cytunodd Tom Hoyles o GMB a Mary Williams o Uno'r Undeb y byddai angen mwy o amser cyfleuster i ymdrin â'r llwyth gwaith ychwanegol a grëir gan y ddeddfwriaeth.¹⁹³

195. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ddarlun llawn o amser cyfleuster undebau llafur ar draws y sector cyhoeddus, yn bennaf oherwydd bod trefniadau'n cael eu gwneud yn lleol o fewn pob corff cyhoeddus. Cadarnhaodd un o'r swyddogion fod gwaith yn mynd rhagddo nawr i adolygu hyn a sefydlu llinell sylfaen ar gyfer yr amser cyfleuster sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Rhagwelwyd y byddai'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn Nadolig 2022 a chytunodd y Dirprwy Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y canlyniadau.¹⁹⁴

Gwerthusiad ar ôl gweithredu

196. Roedd tystiolaeth gan y Sefydliad Materion Cymreig ac Archwilio Cymru yn pwysleisio gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol a'r angen i werthuso gweithrediad y Bil os daw'n gyfraith.¹⁹⁵

197. Roedd y Memorandwm Esboniadol a'r Dirprwy Weinidog yn ei hymddangosiadau ger ein bron yn amlinellu'r bwriad i gynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu.¹⁹⁶ Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog hefyd bwysigrwydd tryloywder yn y broses hon gan ddweud y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a'r cyngor a gynhyrchir gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i Weinidogion Cymru hefyd yn cael eu cyhoeddi.¹⁹⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Goblygiadau ariannol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Rydym yn nodi'r pryderon sy'n ymwneud â'r goblygiadau ariannol a'r costau posibl i gyrff cyhoeddus sy'n codi o ganlyniad i'r Bil. Mae'n amlwg bod angen adlewyrchu'r rhain yn well yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn enwedig os daw cyrff cyhoeddus ychwanegol o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth. Disgwyliwn felly i Lywodraeth Cymru gysylltu â chyrff cyhoeddus mewn ymateb i'r pryderon hyn a chyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cyfnod 2 i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Argymhelliad 25. Dylai Lywodraeth Cymru gysylltu â chyrff cyhoeddus mewn ymateb i bryderon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tanamcangyfrif y costau posibl sy'n codi o

¹⁹³ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 307 a 308](#) – 4 Gorffennaf 2022

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 53 i 58](#) – 3 Hydref 2022

¹⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, [y Sefydliad Materion Cymreig; Archwilio Cymru](#)

¹⁹⁶ Memorandwm Esboniadol; Cofnod y Trafodion, [paragraffau 55 a 56](#) – 20 Mehefin 2022

¹⁹⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 55](#) – 20 Mehefin 2022

ganlyniad i'r Bil a chyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cyfnod 2 i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Amser cyfleuster

Mae'r angen am amser cyfleuster ychwanegol o ganlyniad i'r Bil wedi'i godi gan sawl cynrychiolydd undebau llafur yn ystod y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon. Er mwyn inni graffu'n effeithiol ar y cynigion, ac er mwyn i gyrff cyhoeddus ac undebau llafur ddeall y costau a manteision posibl, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y mater hwn.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyflogwyr a'r mudiad undebau llafur i ddeall a fydd angen amser cyfleuster ychwanegol er mwyn i undebau llafur gyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Bil a darparu'r manylion hyn drwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau erbyn diwedd Cyfnod 2 i adlewyrchu costau a manteision posibl yr amser cyfleuster ychwanegol hwn.

Gwerthusiad ar ôl gweithredu

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad, ar ddechrau'r broses ddeddfwriaethol, i werthuso ar ôl gweithredu, pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith. Rydym yn nodi ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i dryloywder a hoffem weld hyn yn cael ei adlewyrchu'n ehangach, er mwyn cynorthwyo'r broses graffu a gwerthuso. At hynny, nodwn yn dilyn darfodiad y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ym mis Gorffennaf 2022, fod y Dirprwy Weinidog yn bwriadu sefydlu 'Fforwm' Partneriaeth Gymdeithasol i baratoi ar gyfer y trefniadau a ragwelir yn y Bil hwn. Byddem yn croesawu cyhoeddi gwaith y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol yn unol â'r hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y CPG ac i lywio gwaith y Fforwm. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi agenda, cofnodion, ac allbynnau ar gyfer y Cyngor Cysgodol ac unrhyw werthusiad neu ymarfer dysgu gwersi a gynhaliwyd o'i waith.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r agenda, y cofnodion a'r allbynnau ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol. Er mwyn galluogi tryloywder, dylid cyhoeddi'r dogfennau hyn cyn diwedd 2022.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw waith a wneir i werthuso a dysgu gwersi o waith y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na mis Gorffennaf 2023.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
20 Mehefin 2022	Hannah Blythyn, Dirprwy Weinidog, Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru Sue Hurrell, Pennaeth Caffael Gwaith Teg Llywodraeth Cymru Neil Buffin, Dirprwy Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru
27 Mehefin 2022	Richard Tompkins Cyflogwyr y GIG Sue Hill Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Geraint Thomas, Prif Swyddog Cynorthwyol Dros Dro Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Helen Rees, Pennaeth Caffael Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
4 Gorffennaf 2022	Leighton Jenkins CBI Cymru Ben Cottam Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru Paul Slevin Siambrau Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Richard Selby Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru Nisreen Mansour Cyngres Undebau Llafur Cymru Bethan Thomas UNSAIN Darren Williams Undeb y Gwasanaethau Proffesiynol a Masnachol Yr Athro Phil Banfield Cymdeithas Feddygol Prydain Mary Williams Unite Kelly Andrews GMB Dr Victoria Winckler Sefydliad Bevan
11 Gorffennaf 2022	Ed Evans CECA Cymru Liz Lucas Cyngor Caerffili Ruth Marks Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Kirsty Cumming Community Leisure UK Yr Athro Alan Felstead Prifysgol Caerdydd Yr Athro Edmund Heery Prifysgol Caerdydd Yr Athro Lydia Hayes Prifysgol Caint Karen Higgins Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Jon Rae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Marie Brousseau-Navarro Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
	Alice Horn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar [wefan y Pwyllgor](#).

Cyfeirnod	Sefydliad
Bil SPPP 01	Y Gymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil
Bil SPPP 02	Yr Athro Alan Felstead, Prifysgol Caerdydd
Bil SPPP 03	Colegau Cymru
Bil SPPP 04	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Bil SPPP 05	Cyngor Sir Ddinbych
Bil SPPP 06	Cartrefi Cymunedol Cymru
Bil SPPP 07	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru
Bil SPPP 08	Y Sefydliad Adeiladu Siartredig
Bil SPPP 09	Y Sefydliad Safonau Prydeinig
Bil SPPP 10	Cyngor Wrecsam
Bil SPPP 11	Amnest Rhyngwladol Cymru
Bil SPPP 12	Maint Cymru, Cytûn, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Masnach Deg Cymru, WWF Cymru
Bil SPPP 13	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Bil SPPP 14	Chwarae Teg
Bil SPPP 15	Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth
Bil SPPP 16	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bil SPPP 17	Prifysgolion Cymru
Bil SPPP 18	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru

Cyfeirnod	Sefydliad
Bil SPPP 19	Cwmpas
Bil SPPP 20	Siambrau Cymru
Bil SPPP 21	Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Bil SPPP 22	Cyngres Undebau Llafur Cymru
Bil SPPP 23	Sefydliad Materion Cymreig
Bil SPPP 24	Grŵp Hawliau Agored
Bil SPPP 25	Masnach Deg Cymru
Bil SPPP 26	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Bil SPPP 27	Tomorrow's Company
Bil SPPP 28	Comisiynydd y Gymraeg
Bil SPPP 29	Archwilio Cymru
Bil SPPP 30	Iechyd a Gofal Digidol Cymru (rhif 2)
Bil SPPP 31	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru